Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID. GWIRIONEDD. CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 13. Rhif 2.] CHWEFROR 1913. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Pethau Newydd a Hen.
Ymson y Myfyriwr.
Niclas Shams. Parch. R. J. Jones.
Ymweliad a Canada a'r Unol Dalaethau.
Parch. E. Ceredig Jones.
"Mewn Undeb mae Nerth."
Mr. Daniel Jones, Mydroilyn.
Marwolaeth Llenor Ieuanc.
Priodasau.
Marwgofion.
Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 2g. y mis ; drwy y *Post*, 2s. 6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

NOW READY and may be obtained of

J. D. LEWIS, "YR YMOFYNYDD" OFFICE, LLANDYSSUL.

—:o:—

"An Interpretation of Rudolph Eucken's Philosophy."

By the Rev. W. TUDOR JONES, PH.D.

Price 5s. nett.

This Book deals with Prof. Eucken's philosophy in a far more extensive manner than has hitherto been attempted in England.

OS AM SICRHAU COPI O

"CRWTH DYFFRYN CLETTWR"

Anfoned yn ddioed am dano at J. D. LEWIS, Swyddfa "Yr Ymofynydd," Llandyssul, yr hwn sydd wedi prynu yr oll oedd gan y Cyhoeddwr. Prisiau—Paper Covers, 1/6 ; Cloth, 2/6 ; Half Bound, 3/-. Postage, 2d.

TALIADAU.

J. R. T., Dinfach ; D. W. J., Ystalyfera ; Parch. W. J. P., Newton ; Miss A. D., Cellan ; Mrs. R., Pentregwenlais ; D. H. S., Mountain Ash.

Y CLEFYD AR Y IEIR.

PAHAM y goddefwch i'r gelyn yma i wneud y fath golled i chwi, pan y mae meddyginiaeth sydd wedi ei phrofi yn sicr o'i atal, o fewn eich cyrhaedd? Danfonwch am dano ar unwaith ; fe fydd prawf o un blwch ohono yn well i chwi na tudalen o siarad.

1s. 10d. y blwch yn rhad drwy y post, neu dri am 5s.

ODDIWRTH Y GWNEUTHURWR—

John J. Davies, M.P.S., Chemist, Llanybyther.

—— APPLICATIONS FOR AGENCIES ENTERTAINED. ——

YR YMOFYNYDD

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"*Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda.*"

CYFRES NEWYDD.] CHWEFROR, 1913. [CYF. XIII. RHIF 2.

PETHAU NEWYDD A HEN.

YR oedd yn dda genyf weled ar ddiwedd eich rhifyn Rhagfyr arwyddion amlwg eich bod ar fedr cychwyn ar flwyddyn newydd arall yn galonog, a chyda llawn fwriad i wneud YR YMOFYNYDD, mor bell ag y medrwch chwi, gyda help eich gohebwyr a'ch dosparthwyr ffyddlon, yn ganwyll fydd yn llosgi, yn gwresogi, yn goleuo, yn cyfranu gwybodaeth, yn dyfnhau ffydd, yn cryfhau gobaith, ac yn helpu i ledaenu'r Cariad hwnw sydd wedi ei ddesgrifio mor ardderchog yn y drydedd-benod-ar-ddeg o'r cyntaf Corinthiaid, a'r hwn, yn ddiameu, yw y "Penaf peth yn y byd." Bydded llwyddiant ar eich anturiaeth.

Y mae'r YMOFYNYDD wedi myned yn hen yn ngwasanaeth y genedl; ond er yn hen, y mae hefyd yn ieuanc a heiny', ac yn barod eto i ddwyn allan o'i drysor bethau newydd a hen er gwasanaeth y cyfryw hyny o'r genedl sydd am gadw mewn cyffyrddiad a'r pethau sy'n pasio yn y byd crefyddol.

Ceir llawer o bethau newyddion ar dafodau dynion y dyddiau hyn, geiriau newyddion, a syniadau newyddion, rhai o honynt yn awgrymu pethau mawrion, ac yr wyf yn gobeithio y cânt sylw gan rai o'ch lluaws gohebwyr goleuedig yn ystod y flwyddyn sydd o'n blaen. Gaf fi nodi rhai o honynt? Dyna'r pwnc o

YSPRYDEGAETH.

Mae'n wir ei fod wedi cael peth sylw eisoes. Fe ddywedir llawer yn ei erbyn, llawer o ddwli; ond nid oes amheuaeth nad yw yn enill tir. Wrth gwrs, rhwydd yw gwawdio, a gwneir hyny yn benaf gan y cyfryw na wyddant ddim, neu yn nesaf peth i ddim am y mater, dynion nad ydynt wedi cael dim profiad un ffordd na'r llall. Nid oes amheuaeth yn meddwl y rhai sydd wedi cael profiad gyda golwg ar ddilysrwydd neu *reality* y pethau rhyfedd, nad sut mâe eu hesponio, sydd wedi cymeryd lle yn eu presenoldeb. Y mae yna ryw allu dirgel y tu cefn yn gweithredu, a hyny mewn ffordd nad oes neb,

hyd yn hyn, o bosibl, yn ei ddeall. Awgrym rhai yw mai adsain neu adlewyrchiad (*reflex action*) yw'r oll o weithrediad gewynol diarwybod (*unconscious muscular action*) y personau eu hunain. Wel, pe dim ond hyny, y mae yna ryw ddull o weithredu nad yw gwyddonwyr ddim wedi gallu ei egluro hyd yn hyn. Haeriad eraill yw mai'r Gwr Drwg yw tad a mam yr oll; ond y casgliad cyffredin yw fod yr oll yn cael eu cynyrchu gan ysprydion cyfeillion (?) ymadawedig. Nid oes amheuaeth, i'm tyb i, nad yw'r ddamcaniaeth olaf hon, nad pa un ai gwir neu anwir yw, yn taflu mwy o oleuni ar y pwnc nag un arall sydd wedi ei chynyg hyd yn hyn. Ond a chaniatau hyny, nid ydys wedi myned fawr yn mhellach na bod y rhai sydd yn derbyn y ddamcaniaeth, yn tybied eu bod wedi cael prawf newydd, mwy sicr, a mwy argyhoeddiadol fod parhad personoliaeth yn ffaith. Wrth gwrs, y mae hyny yn bwysig, ac nid wyf yn gweled fod achos ini gwyno fod rhai yn cyrhaedd yr argyhoeddiad o anfarwoldeb ar hyd llwybr gwahanol i'r hwn y bydd eraill. Dylai Undodwr, o leiaf, fod yn falch i adael busnes y "cau allan" i eraill.

Gwrthodir yr athrawiaeth, fodd bynag, gan bleidwyr *Theosophy*. Ni wn i fawr am *Theosophy*, ragor nag mai ystyr y gair yw, "Doethineb Duw." Addefwn fod Doethineb Duw yn beth ardderchog, os gallwn gael gafael arno. Gallwn feddwl, wrth yr hyn a glywsom, fod *Theosophy* yn cynwys rhyw adlais o

Dderwyddiaeth

yr hen Gymry. Ffynai'r addysg yn gyffredin un amser, ac erys gweddillion hyd heddyw yn rhai o fanau anghysbell ein gwlad, fel hen draddodiadau wedi eu hestyn i lawr o ben i ben drwy'r canrifoedd. Mi synais yn fawr un tro wrth glywed Rees P——s—yr oedd heibio 80 oed ar y pryd—yn dweyd, "Ni wn i ddim llai nad ceffyl gwyn yn Ffrainc fyddaf fi pan yn cychwyn ar fywyd y tro nesaf." Meddyliais mor dŷn y glŷn hen draddodiadau pan mae'r hyn roddodd fodolaeth iddynt wedi diflanu er ys canrifoedd. Arosant fel cloddynau (*fossils*) yn dyst o fywyd fu. Credai'r hen Dderwyddon yn

Athrawiaeth Trawseneidiaeth.

O dan yr ymadroddion Cylch Abred neu Gylch y Ceugant fe geir yr awgrym ein bod wedi byw lawer gwaith o'r blaen cyn meddianu ein corff presenol, ac y byddwn byw lawer gwaith eto ar ol ei adael. Nid yw'r syniad yn gyfyngedig i Gymru. Dywedai'r Groegwr Pythagoras, mai yr un person oedd efe ag Euphorbus o Gaerdroia, oedd yn byw ganoedd o flynyddau cyn ei eni ef. Os bydd dyn byw yn deilwng, caiff esgyn ris yn uwch, a meddianu corff amgenach, ei fywyd newydd yn gyfleusdra newydd i fywyd gwell o hyd. Nid bob amser y deil dynion ar eu cyfleusderau fel y dylent, ac ânt yn eu hol. Dyna ofnai Rees P——— s. Dywedir i Ajax fyned yn llew,

Agamemnon yn eryr, Orpheus yn alarch, Thersites yn fwnci, a Iolo Morganwg (?) yn ehedydd [Beth ddywed D.G. am hyny?] Aiff pob un i'r corff fydd yn ei siwtio ar y pryd. Rhydd Taliesin hanes rhyfedd am dano ei hun. Tra'n teithio ei gylch yr oedd yn bresenol mewn gwahanol gyrff yn mhrif ddigwyddiadau'r byd. Dysgai Plato fod pob dyn yn cychwyn ar ei fywyd mewn cerbyd adeiniog gyda dau geffyl, un du ac un gwyn—y naill yn dynodi y nwydau anifeilaidd, a'r llall y teimladau moesol, fod gan y cerbydwr gydwybod a rheswm fel llaw dde a llaw aswy i ddal yr awenau. Fel mae'r enaid yn pasio dros risiau olynol o fodolaeth, fe'i ceir weithiau yn is, weithiau yn uwch; ond yn y diwedd, ar ol y profiad a'r ddysgyblaeth angenrheidiol yn cyrhaedd cyflwr o berffeithrwydd.

Ebe cyfaill wrthyf, "yr wyf fi yn tueddu'n gryf i fod yn

THEOSOPHYDD,

a hyny am fy mod yn credu y bydd addysg Darwin yn parhau yn rheol ar ol terfyn ein bywyd presenol. Fel y mae bywyd yn ystod miliynau blynyddoedd y gorphenol wedi parhau i ymddadblygu, credaf fi y bydd yn parhau yn gyffelyb yn ystod miliynau y dyfodol. Nis gallaf weled cyfleusdra cynydd yn bosibl yn unrhyw ffordd arall. Rhywbeth tebyg yw'r Ymgnawdoliad, dybiaf, yr yspryd yn ymgnawdoli o hyd yn y naill gorff ar ol y llall."

Rhaid imi gyffesu nad wyf yn cytuno a'r brawd. Yn ystod y miliynau crybwylledig, dadblygiad y corff oedd yn myned yn y blaen yn benaf, dadblygiad yr aelodau fel ag i sicrhau y pethau angenrheidiol i gynal y corff. Ond yn mhen amser fe ddaeth adeg ar lwybr yr ymddadblygiad i'r meddwl fyned yn fwy pwysig na'r holl aelodau. Wedi hyny, cymerodd yr ymddadblygiad lwybr newydd. Tyfodd yr ymhenydd yn gyflym, a daeth y galluoedd meddyliol i wneud gwaith nad allai'r aelodau byth ei wneud. Bellach, meddwl yw y peth mawr, enaid, dyn yn awr sydd yn ymddadblygu—dyn, y cyntaf o greaduriaid Duw i sefyll ar ddwytroed ac i edrych i gyfeiriad nefoedd. Erys yr aelodau fel yr oeddynt; ond y mae'r enaid, yr hwn yw y dyn yn parhau i fyned rhagddo yn barhaus gyda chyflymdra cynyddol,* a chyda maes agored anherfynol o'i flaen, i ddyfod yn well dyn, ond yn ddyn byth mwy, pa un ai yma ynte yn rhyw fyd arall, dyn ar ei daith o hyd tuag at berffeithrwydd.

Yn mherthynas i

BWNC YR YMGNAWDOLIAD,

fe oddefir i mi air, er mae anhawdd fydd ei ysgrifenu yn y fath fodd ag i foddhau pawb. I'r uniongred, fel eu gelwir, Iesu Grist yw'r

---

* Cynwys (*capacity*) penglog dyn, y lleiaf, yw 62 *cubic inches*, y mwyaf 114; penglog y gorilla, y lleiaf, 24, y mwyaf 34½.

unig wir a chyflawn ymgnawdoliad o Dduw. Ond sylwer ar y gair—Ym—gnawd—oliad. Fe seilir yr athrawiaeth ar yr ymadrodd yn Efengyl Ioan—Duw yw y Gair, a'r Gair a wnaethpwyd, neu a ddaeth yn gnawd. Wrth gwrs, nid oes yma ond cyffelybiaeth ar y goreu. Yr honiad poblogaidd yw fod Duw wedi dyfod yn ddyn, mae'r dyn hwnw oedd Iesu, fod Iesu yn Dduw. Yn awr, pan ystyriwn fod Duw yn hollalluog, hollbresenol, hollwybodol, fe ymddengys gosodiadau fel y canlynol yn anhawdd iawn eu cysoni.

1. Y mae Iesu Grist yn Dduw.
2. Duw yw ein Tad nefol.
3. Nid ein Tad nefol yw Iesu Grist.
4. Nid oes dau Dduw.

Y mae'r athrawiaeth o Dduwdod Crist wedi ei chynal a'i chredu mewn llawer ffurf, a hyny am oesoedd lawer, ac nid ydym am amheu nad oes ynddi, megys y mae yn mhob athrawiaeth sydd wedi parhau yn boblogaidd, am hir amser, ryw wedd neu ryw

Gnewyllyn o Wirionedd.

Ceisiwn gael allan beth yw'r cnewyllyn sydd yn athrawiaeth yr Ymgnawdoliad. Gan fod Duw yn hollbresenol, golyga hyny ei fod yn bresenol yn mhob man. Mae yn bresenol yn y gareg, ond ni ddywed neb mai Duw yw'r gareg; mae yn y blodeuyn, ond nid Duw yw'r blodeuyn; yn yr anifail, ond nid Duw mo hwnw eilwaith; yn y dyn, ond nid Duw yw'r dyn. Yr oedd Duw yn Nghrist, ond nis gallwn, heb wneuthur camddefnydd ar eiriau, ddweyd mai Duw ei hunan oedd Crist. Yr oedd Duw yn Nghrist mor bell ag yr oedd terfynau meidroldeb yn caniatau; yr oedd y Crist wedi ei lwyr drwytho ag yspryd y Tad nefol; yr oedd holl gyflawnder y Duwdod yn trigo ynddo (Col. 2: 9), ac y mae yn trigo yn mhob dyn yn gyffelyb i'r graddau y mae'r dyn wedi meddianu yspryd y Crist (Eph. 3: 19).

Wedi darllen o'r dechreu hyd yma, dyna lais yn 'y nghlust i'n sisial, ac yn drwsgl ddigon hefyd

"Beth Wyt Ti'n Whalu?

"Fe wel y flwyddyn sydd o'n blaen ni yr holl bynciau y soni am danynt yn cael eu taflu i'r cysgod gan bwnc llafur. Pwnc llosgawl y dyddiau nesaf fydd Sosialiaeth. Ni fydd cred pregethwr ar bynciau dy bapyr ond megis mwg yn esgyn o bibell dybaco, a'r gredo—adsain aflafar duwinyddion yr Oesoedd Tywyll—ni fydd yn fwy o werth sylw na llwch y dybaco wyt wedi ei losgi. Y mae'r goleu, er yn araf yn ei dreigl, yn graddol sylweddoli proffwydoliaeth Amnon:—

> Gwybodaeth ar aden i Fryden wych Fro,
> Dry'r t'wyllwch a'r gwallgo sy'n treiddio er's tro, &c.

mae plant llafur ar ddyfod i'w heiddo."

YMSON Y MYFYRIWR.

YN fy "Ymson" diweddaf bum yn traethu'm llen ar Gredo Sant Athanasius. Efallai fod rhai o'r darllenwyr yn teimlo tuedd i ddyweyd mai gwastraff ar bapyr ac amser oedd ysgrifenu dim ar bwnc mor henafol, sydd erbyn hyn yn amddifad o bob dyddordeb i fwyafrif mawr o bobl ein hoes ni. Ond dyweded y cyfryw a fynont, nid dyna ydyw'r ffaith. I ddosbarth lluosog o Gristionogion, hyd yn oed heddyw, y mae'r gredo hon yn fynegiad cyflawn a chryno o'r hyn a dybiant hwy yn athrawiaethau hanfodol Cristionogaeth, ac adroddir hi ar y Suliau penodedig i'w darllen yn ein Heglwysi Sefydledig gydag aiddgarwch. Nid pwnc hollol amddifad o ddyddordeb, ychwaith, yw'r pwnc o "gredo." Y mae, yn hytrach, yn apelio yn fwy neu lai nerthol at bob dyn. Gwnawn ni a fynwn i'w alltudio o'n meddwl, dod yn ol wna efe yn ddibaid, a hawlia sylw ac ystyriaeth. Mewn geiriau eraill, y mae pob dyn yn dduwinydd. Nid oes angen, felly, i mi i wneud un ymddiheurad dros wneud ychydig sylwadau pellach, fel parhad o'r llith flaenorol, ar Gredoau yn gyffredinol, a nodi allan beth ddylai fod (yn ol fy marn i)

Yr Egwyddor Lywodraethol yn y mater o Gredo.

Ffyna cryn lawer o syniadau niwlog, aneglur, mewn perthynas iddo, syniadau a wnant gredoau yn greigiau rhwystr ar ffordd y gwirionedd. Beth yw ystyr y gair "credo"? Nid gair Cymraeg mo hono, ond gair o'r Lladin, wedi ei Gymreigio, yn golygu "yr wyf yn ymddiried." Yn ei gysylltiad crefyddol golyga feddyliau crefyddol dyn—ei feddyliau am y cyfanfyd ac am bynciau bywyd a thynged dyn. Y mae gan bob dyn sydd yn arfer ei feddwl rywfaint mewn perthynas i'r pynciau hyn ei "gredo." Gall roi cydsyniad i "gredo" o waith rhywun arall: dyna wneir yn gyffredin iawn. Gall ffurfio "credo" o'i eiddo ei hun: ni wneir hyn mor gyffredin. Gall wneud pob un o'r ddau—rhoi cydsyniad i "gredo" o eiddo rhywun arall (yn rhanol), a ffurfio "credo" o'i eiddo ei hun (yn rhanol): efallai mai hyn wneir gan y mwyafrif o ddynion a ymroddant i fyfyrio ar bynciau o'r fath hyn. Ond gan nad pa un o'r uchod a wneir, y mae gan y cyfryw ddyn ei "gredo." Nis gwaeth beth yw natur y syniadau, uchel neu isel, amrwd neu gwrteithiedig, y mae ganddo ei "gredo." Ar ol dyweyd hyn, gallaf fyned gam yn mhellach—

Fod Credoau yn Gwahaniaethu,

yn fynych yn gwahaniaethu yn ddirfawr; yn enwedig felly os byddant yn ffrwyth myfyrdod annibynol, ac nid yn gydsyniad cyflwyr a "chredo" rhywun arall. Y mae'r gwahaniaethau hyn yn anocheladwy, am fod dynion yn amrywio cymaint mewn galluoedd, mewn

gwybodaeth, mewn dygiad i fyny, ac yn y blaen. Nid yr un fantais sydd gan ddyn o alluoedd cyfyng, y gwr o un dalent, i ffurfio "credo," ag sydd gan yr hwn a fedd alluoedd mawr, y gwr o bum talent. Y mae gan wybodaeth dyn hefyd lawer i wneud â natur ei "gredo." Felly hefyd ei ddygiad i fyny, yr aelwyd y magwyd ef arni, y gymydogaeth y mae yn byw ynddi, a'r wlad y mae yn ddinesydd o honi. Dyma fi, er enghraifft, yn Undodwr. Pam Undodwr mwy na rhywbeth arall? Y rheswm cyntaf yw—fy mod wedi'm magu ar aelwyd Undodaidd. Pe digwyddai'm rhieni fod yn aelodau o ryw un o'r enwadau iawnffyddol, tebyg mai i'r enwad hwnw y perthynwn inau heddyw. Rheswm arall yw—fy mod wedi'm dwyn i fyny mewn cymydogaeth Undodaidd. Pe bawn wedi'm magu a'm dwyn i fyny ryw filldir neu ragor mewn cyfeiriad neillduol o'r gymydogaeth lle y cefais fy magu a'm dwyn i fyny, y mae yn debygol y byddwn heddyw naill ai yn Eglwyswr, neu yn Fethodist, neu yn Annibynwr, neu yn Fedyddiwr, neu yn Wesleyad. Pe yn ddinesydd o'r Iwerddon, neu Ffrainc, neu'r Eidal, byddwn yn debyg o fod o'r un daliadau a'r mwyafrif o drigolion y gwledydd hyn, sef, Pabydd selog. Nid oes angen ymhelaethu. Gwna hyn yn amlwg i ni fod gan

Amgylchoedd Bywyd Dyn,

yn enwedig amgylchoedd ei fywyd boreu, lawer iawn i wneud â lliw ei "gredo." Yna, yn mhellach, yr ydym yn byw yn nghanol dirgelwch, ar yr hwn nad oes un "datguddiad" cyflawn wedi ei roi eto, er fod yr hyn a elwir yn "ddatguddiadau" yn aneirif. Y mae hyn oll yn anfantais i ffurfio "credo" y gellir tybio yn ffyddiog yn ei chywirdeb. Ond y mae dyn, er hyn i gyd, dan gymhelliad yr elfen chwilfrydig—elfen sydd mor gryf—yn ei natur, yn wastad yn chwilio am y drychfeddyliau goreu fedr efe ddod o hyd iddynt. Ac yn yr ymchwil hon derbynia gymhorth o bob cyfeiriad—oddiwrth ddynion mawr yr oesau a fu a'i oes ef ei hun; oddiwrth lyfrau, cysegredig ac anghysegredig, ac yn y blaen. Ni fu erioed y fath gyfoeth o gyfryngau yn meddiant dyn yn ei ymchwil am y gwir ag sydd ganddo yn awr. A

Ffrwyth yr ymchwil hon

yw ei "gredo." Beth bynag yw'r casgliadau ddaw iddynt, dyna yw ei "gredo." Gall y "gredo" fod yn gyflwyr gyfeiliornus, er mai ychydig o "gredoau" (mi gredaf) sydd yn haeddu'r desgrifiad hwn. Y mae rhyw wirionedd neu ran o wirionedd yn mhob "credo." Gall fod yn gymysgedd o gyfeiliornad a gwirionedd. Dyna ydyw y rhan fwyaf o "gredoau" y byd. Nid ydynt, yr un o honynt, yn gyfeiliornus drwyddynt i gyd; nid ydynt, ychwaith, yn ddi-gymysg wir. Gall y "gredo," hefyd, fod yn wir i gyd. Y mae'r "gredo" hon, fodd bynag, heb ymddangos eto. Y mae dydd y "gredo" gyflwyr wir eto yn y dyfodol, ie, yn y dyfodol pell. Ond beth bynag ellir ddyweyd am unrhyw "gredo," ai cyfeiliornus ydyw drwyddi,

ynte cymysgedd o gyfeiliornad a gwirionedd, dyna'r "gredo" oreu fedr efe—ei pherchenog—ei hadeiladu. Ond dylai pob dyn ymochel rhag y camsyniad o dybied fod ei "gredo" ef yn derfynol, yn un nas gellir ei gwella, nas gellir tynu dim oddiwrthi nac ychwanegu dim ati. Dylai gadw mewn cof yn wastadol nad yw ei "gredo" amgen na man gorphwys am dymhor, ac fod gwell eto yn bosibl. Ar y tu arall, dylai pob dyn gael perffaith ryddid i broffesu a chyhoeddi ei "gredo." "Rhydd i bob meddwl ei farn, ac i bob barn ei llafar," onide? Nid ydym wedi dod i'r safle hon eto. Nid yw'r

EGWYDDOR O ODDEFGARWCH

wedi ei deall eto ond yn amherffaith iawn. Ac y mae'r sawl a broffesant eu bod yn ei deall yn gynil iawn mewn ymgais i'w gosod mewn gweithrediad. Ond yr ydym yn araf nesu at yr adeg hyfryd hon—ie, yn araf nesu. Anwybodaeth, neu gyfyngdra ac amherffeithrwydd gwybodaeth dynol, sydd yn benaf yn cyfrif am yr arafwch hwn. Yn y mater o "gredo" y safle ddelfrydol yw goddefgarwch. A dyledswydd pob un a wir gred yn yr egwyddor yw gwneud ei ran i ddwyn yr adeg yn nes pan y deallir hi yn fwy cyffredinol.

MYFYRIWR.

NICLAS SHAMS.

(1751?–1830?).

(Un o hen gymeriadau hynod Hen Dy Cwrdd, Aberdar, mwy na chan' mlynedd yn ol.)

Disgwylir i mi fywgraffu tipyn ar Niclas Shams. Wrth fywgraffiad meddylir yn gyffredin ddarlun mwy neu lai cywir o ddyn—o ddyn fel yr oedd pan yn fyw, yn ei gorff, ei feddwl, a'i foes. Tybia rhai fod rhywbeth yn drist mewn cysylltiad a bywgraffiaeth, am ei fod yn golygu hanes—y marw. Ceir gwahanol farnau lawer yn mherthynas i wrthrychau priodol bywgraffiaeth yn ogystal ag yn nghylch yr hyn a ddylid ei gynwys mewn bywgraffiad. Cyn ymgymeryd a rhoi darluniad o'r gwahaniaethau hyn, dymunwn osod gerbron *bictiwr* o un amgylchiad yn hanes bywyd ein gwrthrych.

Yr oedd Fewythr Niclas, fel ygelwid ef, yn hoff o bobl ieuainc, a'r bobl ieuainc yn hoff o hono yntau, ac fel canlyniad tyrent i'w gymdeithas pryd bynag y byddai cyfleusdra yn caniatau. Un tro, ebe un o honynt wrtho — "F'ewythr Niclas, a oes meddyliau drwg yn ymgynyg i chwi ambell bryd?" — "Bachan," ebe yntau'n ddiniwed iawn—ac er mwyn deall y cyfeiriad, cofier ei fod yn

ddall—"'dalla i ddim stopio'r fran i ddisgyn ar 'y mhen i, ond gallaf ei stopio i nythu yno."

Ceisir cymeryd i fewn gyflawn ystyr yr hanesyn hwn, fel ag i ddeall yr oll awgrymir ganddo. Dyna'r Pictiwr yn syml, ac yn awr am y *Frame*, y *Setting*. Yn fynych bydd anghytunbeb gyda golwg ar y *frame* i siwtio'r pictiwr. Dywed Ruskin am lyfrau, y gellir eu rhanu i ddau ddosparth—llyfrau at yr awr a llyfrau pob amser. Gall llyfrau at yr awr fod yn ddyddorol ac yn ddyddanus, felly yn eu ffordd yn dda, yn help i basio'r amser a bwysa mor drwm ar ambell i ddyn. Gellir rhanu dynion fe allai yn gyffelyb — dosparth i ddifyru am awr, a dosparth i adeiladu; un i goglais clust ac i godi crechwen, a'r llall i lefaru'r gair fydd yn cydio ac yn cadw, y naill fel *mushroom* ar y maes yn codi yn sydyn ac yn diflanu mor sydyn a hyny, y llall fel y maes ei hunan yn aros. O blith cenedl ni erys coffa ond ychydig i weled canrif yn myned heibio; tra'r erys ambell un arall ychydig yn hwy; feallai am fod

> Yr oed a'r enw a'r dydd bu farw
> Ar gareg arw lwyd ddi ran;

ac arall drachefn am ei fod wedi gadael ar ei ol ryw berlau o feddyliau dysglaer fydd yn cael eu gwerthfawrogi am genedlaethau lawer. Ond beth, meddwch, sydd a fyno hyn oll a'r *frame* y soniwyd am dano? Wel, chwilio am y ffrâm ydy ni—ffrâm fydd yn siwtio.

Yn ei lyfr ar "Hanes Gwareiddiad" dyry Buckle le amlwg iawn, ac nid annheilwng, i fywgraffiadau Adam Smith, Voltaire, Burke ac ereill, tra mae Freeman Clarke yn tybied os gadewir allan enwau fel Savonarola, Luther, Loyola, Wesley, y byddai treigl hanes yn hollol annealladwy. Perthyn yr olaf i ddosparth gwahanol. Perthyn y naill i faes y meddwl, y deall, a'r llall i foes a chrefydd; ond y mae i'r ddau le amlwg yn hanes y byd.

Ni chyfrif Carlyle neb yn deilwng o sylw ond yr arwr—yr *hero*. Iddo ef, hanes dynion mawrion ydyw pob peth, arweinwyr dynion, cynllunwyr, portreadwyr, crewyr yr hyn y mae'r lluaws wedi ei gario allan i weithrediad. Pob peth welwn ni wedi ei gyflawni, nid yw ond cynyrch materol allanol, sylweddoliad a chorfforiad o'r meddyliau drigent yn wreiddiol yn y Dynion Mawrion ddanfonwyd i'r byd. Enaid hanes yr holl fyd nid yw ond hanes Dynion Mawrion. Nid yw'r naill na'r llall o'r rhai hyn yn siwtio fel ffrâm i'r Pictiwr.

Treiwn farn y Dr. J. R. Beard. Ebe efe, "Bywgraffiaeth, darlun yw o'r bywyd dynol." Y mae hwn yna yn rhy ben agored—ai bywyd person unigol ynte bywyd y ddynoliaeth olygir? Ai bywyd dyn cyffredin, ynte arwr Thomas Carlyle? Ond gadawn iddo fyned rhagddo—Ni all dim fod yn bwysig, dim yn fwy dyddorol i ddynion. Y mae i fywgraffiaeth hawl arbenig i sylw,

The proper study of mankind is man.

Gan ei fod yn ddesgrifiad o fywyd, mae'n ddesgrifiad o'r hyn ydym ni ein hunain, pobl gyffredin, pobl o bob gradd ac o bob oedran yn myned trwyddo—y wasgfa a deimlwn, y llawenydd a'r tristwch a brofwn. Wedi ein huno â phobl y gorphenol trwy gyfundeb o natur a phrofiad, yr ydym yn un a hwy hefyd mewn cydymdeimlad. Eu hanes hwy yw ein hanes ni, ein hanes ni yw eu hanes hwy. Felly dylai stori bywyd dyn feddu dyddordeb dwfn i bob dyn. Pe gellid cael cyflawn adnabyddiaeth o'r bywyd a'i osod allan yn syml ac yn fyw, fel ag i ryw raddau ei ddwyn drachefn ger bron, gwnelai stori o'r fath ragori ar unrhyw nofel mewn dyddordeb. Ofnwn fodd bynag ei bod yn rhy anhawdd i roddi dyddordeb nofel i hanes Pewythr Niclas. Mor bell ag y medrwn ein hamcan fydd rhoi'r gwir am dano.

Dywed Dr. Channing nad oes un gangen o lenyddiaeth ag y mae cymaint o dwyll ynddi a Bywgraffiaeth. Gwir amcan Bywgraffiaeth ddylai fod

i roi golwg glir ar gymeriadau dynion, y fath ag y gall cyfaill agos ei roi. Dylai'r bywgraffydd uwch pob peth geisio'r geiriau a'r gweithredoedd hyny o eiddo dyn, a osodant allan yr hyn oedd fwyaf personol iddo. Nid yw y rhan fwyaf o fywgraffiadau yn rhoddi i ni ddim, neu'r nesaf i ddim o hyny. Fel rheol, molawdau nid bywgraffiadau ydynt. Weithiau gwnaiff stori fach ein gollwng i fewn i enaid dyn yn fwy na digwyddiadau mwyaf amlwg ei fywyd. Rhydd stori'r fran i ni, fel fflachmellten, weledlad clir i ddyfnderoedd cymeriad Niclas Shams.

Hyd yn gymharol ddiweddar y syniad am hanes gwlad oedd hanes ei breninoedd, fel pe byddent hwy yn bobpeth a neb arall yn ddim. Hwy lanwent lygaid haneswyr Prydain Fawr hyd nes y daeth y Proffeswr J. R. Green i roddi i ni hanes y bobl —"History of the English People"; o leiaf dyna y proffesai fod. Ceir ganddo hanes Shakespeare a Milton, y dynion mwyaf hwnt i bob cymariaeth o neb yn eu hoes; ond myn rhai nad yw yntau wedi estyn terfynau hanes mor bell ag y dylai. Clywsom un yn ei feio am na fuasai wedi dywedyd rhagor am John Ball. Dichon fod hyny yn ddiffyg ynddo, ond y mae yna anhawsdra na ellir dwyn i fewn bob John—pob John Hodge, er engraifft, a phob Shoni Hoi. Yr ydym yn rhy debyg i'n gilydd fel y mae hanes yr un mewn ystyr yn rhoi hanes yr oll. Ychydig yw y rhai adant eu hargraff ar wareiddiad a blaenfynediad y byd. Dywed David Hume, yr enwocaf o haneswyr ei ddydd, nad oedd rhyfeloedd tywysogion Prydain Fawr fil o flynyddoedd yn ol ddim wedi gadael mwy o argraff ar wareiddiad ein gwlad, na chynifer o ryfeloedd yn mhlith y brain.

Yn fynych dybiwn nid yw'r gwahaniaeth rhwng dyn a dyn ond gwahaniaeth manteision a chyfleusderau. Oni awgrymir cymaint gan Gray yn ei Fyfyrdod mewn Mynwent,—

Yn y graian yma gorwedd,
F'allai lawer fu'sai lawn
O wir rywiog fflamiau'r awen
A phrydyddol ddenol ddawn;
Dwylaw ag all'sai lywio teyrnas,
A theyrn-wialen ar ryw thrôn,
Dawn a dwylaw diwnai delyn
I lesmeiriol dyner dôn.

Yma f'allai caid rhyw Hampden
Doeth, â chalon ddewr o ddur,
A geryddai un gormeswr
Fynai dreisio darn o'i dir;
A rhyw Filton heb ei fawr-glod
Mewn distawrwydd is ein traed,
A rhyw Gromwel gwrol grymus,
Rhydd o 'lanas pawb o'i wlad.

* * * *

Tannu llawndid dros ei genedl,
Gweled gwlad yn gwenu ei glod,
Oeddynt freintiau nad allasai
I un o'u graddau'n bosib' ddod.

Rhy anhawdd gwybod beth fuasai gwirthrych y llinellau hyn pe wedi cael manteision priodol. Gwyddom fod dynion dall wedi cyrhaedd enwogrwydd mawr.

Prin iawn yw manylion hanes bywyd Niclas Shams. Tybir iddo gael ei eni tua 1750 mewn ty yn Fforest Llwydcoed—fferm y Cwmni yn bresenol—lle'r oedd ei dad, Shams Shon Gregor, arianydd (cashier) tawdd-dy *Cae Luce* yn byw ar y pryd. Yr oedd yn ddall er yn ifanc, ac yn niwedd ei oes yn dodi i fyny gyda Molly Woodhouse ar Heol y Felin, yn yr ail dy oddiwrth Heol Ebenezer, Tomos Dawkin, perchen y ddau yn byw yn y cyntaf. Yn y ty hwnw y bu farw tua 1830. Yr oedd y tai y pryd hwnw y tu cefn i'r ddwy shop bresenol, gyda gardd yn y ffrynt a yet haiarn yn arwain i fewn iddynt. Cofiaf am danynt yn dda. Ceisiai Niclas wella tipyn ar ei sefyllfa fydol drwy weu sanau. Yr oedd yn feistr ar y gelfyddyd a dywedir y troai allan y sanau gyda chyflymdra digyffelyb.

Ni wn i ddim am rif a dysgleirdeb ei dalentau, dim am natur a gwerth y manteision addysg a gafodd, dim am helaethrwydd ei wybodaeth gyff-

redinol, na dim ond ychydig iawn am ei sefyllfa fydol, ond credaf y gwn ddigon i allu cyfleu geiriau'r hen emyn gyda phob priodoldeb iddo, –

Os oedd yn dlawd o gyfoeth byd,
'Roedd ganddo olud hawddgar ;

ac eto, ni wn i ddim am ei ymddangosiad allanol, dim pa mor dal na pha mor dew oedd, na lliw ei lygaid na'i wallt, na pha fath bryd a gwedd oedd iddo ; ond pe dywedai rhywun wrthyf iddo basio i'r byd anweledig, yn debyg i Stephan â goleuni'r nef oedd ar ei wyneb, ni fyddai'n anhawdd genyf dderbyn ei dystiolaeth.

Ebe Carlyle, crefydd dyn yw'r peth penaf am dano – crefydd dyn neu grefydd cenedl. Ac wrth grefydd nid oedd yn golygu credo'r eglwys.

Un nos Sul aeth Niclas gydag Evan Christmas i Garmel, ty cwrdd newydd (1829) y Methodistiaid.* Eisteddodd Niclas yn dawel drwy'r gwasanaeth, a chan nad oedd ganddo neb i'w arwain adref, gorfu iddo aros ar ol nes terfynu'r gyfeillach. Y peth pwysicaf ddaeth gerbron oedd cerydd eglwys ar ryw ddyn am wado (curo) ei wraig. Gofynodd y pregethwr † Pam yr oedd yn wado ei wraig ? Atebodd yntau—"Nid da rhoi ffrwyn i asyn. Gwialen a weddai i gefn yr ynfyd." A chyda ei fod yn dywedyd y gair, dyna'r gwragedd drwy'r ty yn gwaeddi allan yn un swn "Torwch e' ma's, Torwch e' mas."—Ar hyny dyna'r pregethwr ar ei draed, a chyda llais trystiog uchel‡ yn dywedyd— "Torwch e' ma's, yn siwr. Na wnewch. Mae wedi bod yn ddigon hir ar faes y cythraul yn barod. Cadwch e' i mewn, a scwrjiwch e'n dda ! "

Yr oedd Niclas Shams yn gryf mewn gweddi, a meddai ar gof craffus. Gallai adrodd rhanau helaeth o'r Beibl. Er mwyn gwneuthur hyny'n foddhaol fodd bynag, yr oedd yn rhaid iddo gael y Llyfr o'i flaen, yr hyn a barai syndod i lawer ; a gofynodd rhywun iddo un tro, Pa eisieu llyfr oedd arno, ac yntau heb fod yn gwel'd ? Atebodd yntau, "Wn i ddim bachan, ond yr wyf yn teimlo mod i'n gallu adrodd yn well gyda llyfr o fy mlaen." Paham ? Ni wyddai ef. A fedr rhywun arall roi awgrym ? Cyflwynwn y mater i sylw'r athronwyr. A oes rhywbeth a fyno a'r hyn a elwir yn "Association of Ideas ?" Adroddir stori am Syr Walter Scott pan yn hogyn yn yr ysgol. Yr oedd yn ail yn ei ddosparth. Awyddai yntau fod ar y top ; ond yn ail y bu am hir amser. Gweithiai'n galed ond i ddim pwrpas – yn ail oedd ef o hyd. Ryw ddiwrnod fe sylwodd fod y brawd oedd ar y blaen yn chwareu a botwm ei gôt o hyd tra'n adrodd ei wers, a phenderfynodd yntau ar ei gynllun. Torodd y botwm i ffwrdd. Dranoeth drachefn awd i fyny a'r wers fel arfer. Cychwynodd y "Boy Blaen," chwiliodd am y botwm. Yr oedd wedi diflanu ! Torwyd y swyn. Dyrysodd meddwl y gwr bach. Aeth y cwbl yn dywyll ; syrthiodd y "Boy Blaen" i'r ail le, aeth Scott i'r top a chadwodd ei le hyd y diwedd. Beth oedd y dirgelwch ? Dyna bôs i'r athronwyr.

Nid wyf yn gwybod a oedd fy ewythr Niclas yn smociwr. Tebyg nad oedd, gan ei fod yn ddyn call ac yn ddyn tlawd, a chanddo felly reitiach pwrpas i'w arian na'i droi yn fwg ; ond yr oedd ei weinidog—y Parch. Thomas Evans (1764-1833)—yn smociwr trwm, ac wrth wneuthur hyny, yr oedd yn wahanol i'r rhan

---

* Ni chynelid gwasanaeth hwyrol yn yr Hen Dy Cwrdd hyd rywbryd ar ol dyfodiad y Parch. John Jones i Aberdar yn 1833.

† Evan Harris, Merthyr, medd traddodiad.

‡ Clywid Mr. Harris, pan fyddai'n gwaeddi, o ddrws ffrynt Mount Pleasant Garden.

amlaf o bobl, yr hwn megys mewn llawer o bethau eraill, fel yr oedd son am dano oblegid hyny—nid oedd yn poeri. Ond peth arall gyfeiriaf ato. Y pryd hwnw arferai'r pregethwr a'r prif aelodau ar ol y gwasanaeth ymgasglu o gylch y tân i gael tipyn o ymgom a chyfeillach felus. Trinient lawer pwnc yn ddiameu, a deuai'r bregeth weithiau dan sylw, a hyny ar gais y gweinidog ei hunan. Ambell dro, traddodai'r gweinidog hen bregeth oedd wedi gwasanaethu o'r blaen. Yn wir clywsom fod un bregeth mewn ffafr neillduol ganddo, pregeth ar Haman a Mordecai, a thraddodai hono bob tro y digwyddai aelod o un teulu neillduol fod yn bresenol. Ond cyfeirio'r wyf yn awr at amgylchiad arall. Nid yw'r testun na'r bregeth yn hysbys i mi, ond casglaf mai hen bregeth oedd oddiwrth y ffaith fod Fewythr Niclas yn ei chofio mor dda, ei chofio'n well nag yr oedd yr awdwr ei hunan wedi ei chofio y bore hwnw.—"Sut pregethais i heddyw, Fewythr Niclas?" —"Yn dda iawn, er fy mod wedi eich clywed yn well rai troion." Yr oedd gan yr hen frawd gof ardderchog, ond sylwer mor foneddigaidd y noda ddiffygion y bregeth:—"Dywedasoch fel hyn a'r fel, a fel hyn a'r fel." — "Naddo, naddo, Fewythr Niclas; dyna fel y dylaswn ddweyd, ond darfu i mi anghofio'r ail ben yn llwyr!"

"Dalla i ddim ei stopo i ddisgyn ar y mhen i." Y rheswm pam. Yr oedd yn ddall. A fedrwn ni sylweddoli ystyr hyny? Yn ddall! Yn gweled dim—na mynydd na mor, na dyffryn nac afon, na daear na nen, na haul na lleuad na ser, na cheffyl na buwch na dafad, na chi na chath, na llygoden, na thad na mam, na phriod na phlentyn, na gwyneb na gwên hyd y nod y cyfeillion mwyaf anwyl! Gwel'd dim! Gwel'd dim o'r fran yn disgyn ar ei ben! Mae'n dorcalonus. Cofiwch eiriau John Milton:—

I am old and blind
Men point at me as smitten by God's frown,
Afflicted and deserted of my mind
Yet I am not cast down.

Ac eto,—

Fel hyn dychwela holl dymorau'r flwydd
Ond dychwel ni wna dydd i mi, na gwên
Diriondeg hwyr a bore'n agoshau,
Na thrai ar wanwyn mewn blodeuog wrid,
Na rhosyn haf, na deadellau'r maes,
Na heuliau'r nen, na gwyneb dwyfol dyn;
Ond cwmwl tew a chaddug byth barhaus
Sy'n cau o'm cylch, a didol fi o ffyrdd
Difyrus dynolryw.—*Paradise Lost, —III.*

Ystyriwn hyn oll, a diolchwn i Dduw ein bôd yn gallu gweled.

"Ond gallaf ei stopo i nythu yno," Dyna ateb ardderchog. Y pwnc mawr a'r pwnc pwysig yw, nid yn gymaint fod y meddwl drwg yn ymgynyg i ni, gall hyny fod yn anochel-adwy ambell waith; ond yn ein bod yn gadael iddo wneuthur ei nyth, daw canlyniadau anymunol oddi wrth hyny. Pan ollyngodd y Neidr y Ddraenog (Chwedl Esop) i fewn i'w nyth, gwnaeth hyny o dosturi teg, oherwydd gerwinder yr hin, ond cafodd yn fuan achos i edifarhau. Dylid bod yn wyliadwrus iawn wrth ddewis cyfeillion. Profodd y Ddraenog yn gywely (bedfellow) anymunol ac erchodd y neidr iddi fyned allan. "Na," meddai hithau, "eled allan y sawl nad yw yn caru y lle; am danaf fi, yr wyf fi yn gysurus ddigon lle'r wyf." Gwrthwynebwch ddiafol ac efe a ffy oddiwrthych. Nid yw'r drwg yn gymaint yn y meddwl neu'r dychymyg ag yn y ffaith ei fod yn cael ei feithrin, yn cael ei gadw o flaen llygad y meddwl a'i gario allan i weithrediad. Ceir gwirionedd pwysig yn llinellau John Milton:—

Gall drwg fyn'd trwy feddyliau Duw neu ddyn,

Os bydd *anghymeradwy* ganddo ef,
Heb adael ar ei ol na nam na bai.*

Y mae'r byd yn myned rhagddo, nid yn unig trwy help y cewri meddyliol mawrion sydd ynddo, ond hefyd trwy gydgynulliad o'r hyn a wneir gan bob gweithiwr pwy bynag. Gall pob un roi help bychan a theimlo ei fod yn helpu cerbyd y blaenfynediant i redeg yn nghyfeiriad mwy o wasanaeth i ddynoliaeth. Gweddi Iolo Morganwg fyddo ein gweddi ni, –

Dod ini'n fendith fy Nuw mawr,
Fod rhan o'r byd lle'r wyf yn awr,
Yn nes at ffyrdd dy Wyllys Di,
Yn well ryw faint *o'm achos i.*

Nid gwiw i neb ddywedyd nad all efe wneud dim. Gall pawb wneud rhywbeth. Gan nad beth a wnawn, boed fawr boed fychan, edrychwn ein bod yn gwasanaethu'r achos gore drwy hyny. Gwnawn ein bywyd mor llawn ag y medrwn, yn llawn o bob peth sy'n ardderchog ac yn dda. Os bechan oedd gardd Niclas Shams, fe wyddai ei gymdeithion ieuainc ei fod yn codi blodau o'r mwyaf peraroglus ynddi. Edrychwn ninau bob yr un at ei ardd ei hunan, gofalwn fod y ffrwythau godwn ynddi yn gymeradwy. Cofiwn eiriau'r gwneuthurwr crythau (violins) mwyaf llwyddianus welodd y byd erioed. "Pe llaeswn fy nwylaw," ebe fe, "mi yspeiliwn Dduw wrth hyny; gan adael lle gwag yn lle crythau. Ni allai Duw wneud gwaith Antonio Stradivarius heb help Antonio." Ar faner un o gatrodau Oliver Cromwell dywedir fod y geiriau hyn—Na foed i ni er mwyn byw, golli yr hyn y mae dynion yn byw er ei fwyn." "Pa beth bynag a ymaflo dy law ynddo, gwna a'th holl egni."—R.J.J.

YMWELIAD A CANADA A'R UNOL DALAETHAU.

(PARHAD.)

Drwg iawn genyf fod afiechyd wedi fy rhwystro i barhau hanes fy nhaith yn y rhifynau diweddaf o'r YMOFYNYDD. Yn fy ysgrif gyntaf sylwais mai un o brif beryglon y morwr yn y cylch Gogleddol ydoedd y mynyddoedd ia. Yn fuan iawn caed prawf torcalonus o hyn yn nrylliad yr agerlong ysplenydd

Y TITANIC.

Tebyg iawn y bydd i'r amgylchiad hwn wneud mordwyaeth yn fwy diberygl yn y dyfodol. Yr ydym yn fynych yn dysgu ein gwersi mwyaf defnyddiol oddiwrth ein profiadau chwerwaf.

Cyrhaeddasom Quebec yn mhen oddeutu pum diwrnod a haner wedi cychwyn o Lerpwl, a da oedd genym deimlo ein traed unwaith eto ar dir sefydlog. Saif y ddinas ar fan rhamantus dros ben, ar ben tir lle yr ymarllwys yr afon St. Charles i'r St. Lawrence. Cyn cychwyn o'r lanfa yr oedd yn rhaid i ni agor ein coffrau er mwyn i wyr y dollfa gael

* Evil into the mind of God or man
May come and go, so *unapproved* and leave
No spot or blame behind.—*Paradise Lost, Book V., 144.*

gweled a oedd genym ryw nwyddau trethadwy yn ein meddiant. I rai o honom ag oedd yn edrych dipyn yn amhrofiadol nid oedd y gwaith hwn ond ffurfiol. Boddlonai y swyddog bron ar weled allweddi, ac ni wnai dwrio i'r gwaelodion am ryw nwyddau gwaharddedig fel ag y gwneir yn rhai o borthladdoedd Ewrop. Mae y ffordd Americanaidd o ofalu am eiddo personol y teithiwr yn dra syml. Gadewir y cyfan dan ofal yr awdurdodau. Sicrheir tocyn a rhif arno wrtho bob sypyn, a rhoddir tocyn arall a'r un rhif arno i'r perchenog. Pan gyrhaedda hwn ei gartref neu ei westy, dengys ei docyn neu docynau a hawlia ei eiddo. Yn y wlad hon yr ydym yn ffwdanus iawn gyda'n *luggage*. Yr ydym yn gwylio ein heiddo gyda sêl a brwdfrydedd teilwng o achos mwy pwysig, ac yn damsang llawer ar draed ein gilydd wrth wneud hyny.

Rhenir tref Quebec yn ddwy adran o ymddangosiad hollol wahanol. Ar y gwaelod ar lan yr afon mae yr hen dref, gyda'i heolydd culion a'i ffyrdd anwastad. Yna ymgyfyd y tir yn glogwyn serth o ddau cant i dri chant a haner o droedfeddi o uchder, ac yno saif y rhan newydd a mwyaf pwysig o'r dref. Yno mae yr adeiladau gwychaf i gyd. Mae un o'r ystrydoedd rhwng y rhan isaf a'r rhan uchaf o'r dref yn serth neilduol. Gwneir hi i fyny o risiau o ben bwy gilydd, a gelwir hi yn *Break-neck Street*. Yn mhlith yr adeiladau mwyaf destlus mae gwesty ardderchog Château Frontenac lle yr oeddwn yn aros. Mae ar arddull hen blas gwledig Ffrengig ac mae yr olygfa ohono yn hardd iawn. Dipyn yn uwch i fyny mae y gaerfa fawr filwrol, yr hon a ymddengys mor gadarn a chreigiau Gibraltar. Drwy ganiatad y llywydd cafodd fy nghyd-deithiwr Mr. Hobhouse a minau weled y caerau o fewn i'r muriau, a chawsom ein synu yn fawr i weled pob peth wedi ei wneud ar raddfa mor gadarn.

Erbyn hyn mae poblogaeth Quebec yn rhifo oddeutu 75,000, ac mae naw o bob deg o honynt o darddiad Ffrengig ac yn siarad iaith eu tadau. Maent hefyd yn Babyddion selog iawn. Daeth Quebec i feddiant y wlad hon yn y flwyddyn 1759 pan orchfygwyd y Ffrancod, y rhai a'i meddianent cyn hyny, yn y frwydr waedlyd hono ar

WASTADEDDAU ABRAHAM

tu cefn i'r dref lle y syrthiodd yr enwog Gad-lywydd Wolfe, yr arwr Prydeinig. Pan wedi ei glwyfo yn farwol gofynodd pa fodd yr oedd y frwydr wedi troi, a phan y sicrhawyd ef fod Prydain wedi trechu, dywedai y gallai yn awr farw yn dawel a hapus. Y nos o'r blaen adroddodd *Gray's Elegy*—

" Dacw ddolef y ddyhuddgloch"

a gyfieithiwyd mor fendigedig gan David Davis, Castell-hywel a dywedai: " Foneddigion, byddai yn well genyf pe bawn wedi cyfansoddi y gân yna, na phe bawn yn gallu curo'r Ffrancod 'foru."

Pan yn ymweled a'r gofgolofn ar y llecyn lle syrthiodd, rhaid i mi gyfaddef ddarfod i ryw iâs rhyfedd o wladgarwch basio i lawr fy asgwrn cefn. Mae yn debyg fod y ffordd o ddangos gwladgarwch wedi cyfnewid tipyn yn y wlad hon er amser Wolfe, ond mae yn wir eto mai

" Câs na charo
Y wlad a'i maco."

Mae Eglwys Gadeiriol y Pabyddion yn adeilad gwych iawn, ac mae pob peth mewn cysylltiad a hi wedi ei ddyfeisio i apelio at y teimladau dynol. Dyna yw dirgelwch llwyddiant y Babaeth yn mhob gwlad.

Yn mhlith y sefydliadau addysgol yn Quebec enwaf Brif-ysgol Laval a'r Coleg Diwynyddol Pabyddol mewn cysylltiad a hi. Ymwelais a hwynt wrthyf fy hun, a phan aeth y porthor a mi o ystafell i ystafell gan ddadgloi a chloi y dorau mawrion a'i allweddi trymion teimlwn beth arswyd, ac adgofid fi o linell yn yr

hon mae Dante yn desgrifio y fynedfa i'r byd isod—

"Does obaith mwy i'r sawl a â'r ffordd hon"

Mae llawer o wrthddrychau o ddyddordeb mawr yn y sefydliadau hyn, megis darluniau gwerthfawr, a'r gwahanol fwnau a chynyrchion naturiol a geir yn Canada. Nis gallwn lai nag edmygu sêl ddi-ildio y Pabyddion yn gwneud y fath aberth o foddion ac ymröad personol tuag at gadw i fyny eu crefydd.

Adeilad gorwych arall yw seneddy Tiriogaeth Quebec gyda'i dŵr o wyth ugain o droedfeddi o uchder. Ychydig tuallan i'r dref mae rhaiadr Montmorency yr hon sydd 265 o droedfeddi o uchder. Y boreu yr ymwelais a'r lle yr oedd y ffrydlif anferth hon yn ei gogoniant ar ol gwlaw trwm y dydd a'r nos o'r blaen. Disgyna'r ffrwd mor wyn a'r eira ac am hyny gelwir hi gan y brodorion *La vache*, y fuwch. Dywedir y gwerthid, oes neu ddwy yn ol, a hyny yn mhob gwlad, drwyth tebyg i'r hwn a ddaw dros y rhaiadr yma, fel pe bai wedi llifo o'r *fuwch* ac nid o'r *afon*.

Lle arall o ddyddordeb yr ymwelais ag ef oedd Eglwys fawr Babyddol St. Anne de Beaupré, lle dywedir y gwellheir llawer iawn o gleifion o ba glefyd bynag fyddo arnynt. O fewn i'r eglwys, bob ochr i'r drws mae tâs fawr yn cyrhaedd hyd y tô o ffyn baglau a phethau cyffelyb a ddefnyddir gan gleifion wedi eu gadael ar ol gan y rhai iachawyd, fel prawf o'r fendith a dderbyniasant. Digon tebyg fod llawer yn teimlo yn well wedi ymweled a'r lle, ond a yw eu gwellhad yn *barhaol* sydd gwestiwn arall. Daw dau can mil o bererinion i'r lle bob blwyddyn, cleifion gan mwyaf. Digwyddwn fod yno ar ddydd pen blwydd y Santes, ac yr oedd yn yr Eglwys a'i hamgylchoedd ddeuddeg mil o addolwyr, y mwyafrif o honynt wedi dyfod i ofyn am iechyd. Dywedai boneddiges o Cleveland wrthyf yn y trên ei bod hithau wedi bwriadu gofyn am fendith ond pan welodd gynifer yn waelach eu cyflwr na hi ei hun, ni feiddiai geisio dim. Ffurfiai y gwrywaid eu hunain yn orymdaith fawr, ac aethant i mewn i'r deml hardd dan ganu cân yr Eglwys Filwriaethus, ac ymgryment yn isel wrth basio'r allor. Er nad oedd y gredo yr un a'r eiddof fi, teimlwn er hyny mai da i mi oedd bod yno.

Mae arwynebedd Tiriogaeth Quebec yn rhyw dri chymaint a'r Ynysoedd Prydeinig, ac y mae ar ei heithafoedd yn fil o filltiroedd o hyd, a chwe'chant o led Fel yn nhref Quebec, Ffrengig yw y rhan fwyaf o lawer o'r boblogaeth drwy'r holl diriogaeth. Prif farsiandïaeth tref Quebec ydyw y Fasnach Goed. Mae pentyrau enfawr o goed i'w gweled yn mhob man ar lanau y St. Lawrence, wedi eu cludo yno gan y dwr ar rafftiau, a hyny o bellterau mawr. Un amser ymddangosai gelltydd Canada fel pe baent yn ddihysbydd yn eu cynyrch ond yn awr maent wedi eu teneuo i'r fath raddau fel bydd yn rhaid i'r awdurdodau cyn hir blanu ar gyfer y dyfodol. Mae crwyn creaduriaid gwylltion hefyd yn farsiandïaeth bwysig yn Quebec – crwyn o bob math ag y mae y rhyw deg yn hoff o'u gwisgo, o'r oesau boreuaf hyd yn awr. Feallai mai y crwyn mwyaf costus yw eiddo'r llwynogod duon ac arianliw y rhai sydd wedi myned yn brin iawn, o herwydd fod galw mawr am danynt. Mae rhai ffermwyr yn magu'r creaduriaid hyn mewn caethiwed, ac mae yn ffaith fod cymaint a saith mil o bunau wedi cael eu talu am bâr ohonynt yn fyw. Mae dwy fil y pâr yn bris cyffredin am danynt. Pe byddai llwynogod Cymru mor werthfawr a hyn, yr wyf yn ofni yr elai pawb i "hela cadno." Mae eto lawer iawn o hela anifeiliaid gwylltion yn Canada megis y Mws, y Caribas, yr Elk, a'r Carw Coch. Ond mae holl wylltfilod y wlad yn encilio o flaen gwareiddiad, ac maent yn awr i'w cael yn y rhanau mwyaf

anghysbell o'r wlad. Draw yn mhell yn y Gogledd Orllewin mae buffalo'r goedwig eto i'w gael yn wyllt ond mae buffalo'r gwastadedd wedi myned ar goll am byth, ond yr ychydig o honynt gedwir mewn caethiwed. Mewn manau gwelir deadelloedd mawrion o'r *reindeer*, ond ni welais i yr un o honynt, ond mewn caethiwed. Mae milodfa ddyddorol iawn o'r holl anifeiliaid oeddynt unwaith yn gyffredin yn Canada mewn parc mawr gerllaw rhaiadr Montmorency. Mae tir da i'w gael yn nhirogaeth Quebec, yn enwedig ar lanau'r St. Lawrence a chynyrchir yno lawer o ŷd, afalau, eirin a ffrwythau eraill. Un o olygfeydd mwyaf tarawiadol Quebec yw tyrau Eglwysi Pabaidd a ymgodant ar bob llaw fel tystion o'r ffaith fod y brodorion yn glynu wrth eu ffydd.

Ond y mae'n rhaid i mi fyned yn mlaen. O Quebec aethum i Montreal, ac yr oedd y daith yn ddyddorol iawn gan fod pob peth yn newydd i ni—y coedydd, y blodau, a llawer o gynyrch y tir. Saif Montreal ar ynys ddeg milltir ar hugain o hyd a saith o led, a ffurfir gan yr afon St. Lawrence ac afon Ottawa yr hon a ymrana yn ddwy, ychydig cyn yr ymarllwys i'r blaenaf. Ar ganol yr ynys ymgyfyd bryn uchel, *Mont Real*, yr hwn sydd yn goediog hyd ei gopa. Yr oedd traddodiad yn mhlith yr Indiaid fod cawr o faintioli anferth yn cysgu dan y bryn ac y tröai yn ei wely ryw ddydd gan ddinystrio'r dref. Nid yw hyn ond ffordd farddonol o ddesgrifio'r bryn fel mynydd tanllyd yr hwn sydd yn awr wedi llosgi allan a llonyddu. Cyrhaeddir pen y bryn naill ai gyda'r *funicular railway*, ar yr hon y tynir y cerbydau i fyny gan raff gref, neu ar y ffordd a ymdröella o gwmpas ei ysgwyddau. Y tro cyntaf esgynais mewn cerbyd pedwar ceffyl, a mwynheais yr olygfa yn fawr. Ar un o lethrau'r bryn mae Prifysgol McGill yr hwn yw y sefydliad mwyaf enwog mewn ystyr addysgawl yn Canada. Harddir llethrau'r bryn gan balasau gorwych a llawer o sefydliadau dyngarol. Wrth draed y mynydd saif y rhan fasnachol o'r dref, ac mae pawb yno yn edrych yn frysiog iawn, fel pe baent yn tybied mai hwy yw yr adar boreuaf, sydd i ddal y pryfaid. Mae yr adeiladau ar raddfa dywysogaidd. I enwi un, o lawer, mae Banc Montreal yn un o'r adeiladau harddaf a mwyaf costus a welais erioed. Tu fewn gorchuddir y muriau i gyd â marmor o wahanol liwiau ac mae y cyfan wedi ei orphen yn y modd tlysaf. Yno ceir cadernid a thlysni yn llaw yn llaw. Yr adeilad eangaf yn y lle yw yr Eglwys Gadeiriol Babaidd yn yr hon mae eisteddloedd i ddeuddeg mil o bobl. Mae gan y Pabyddion Eglwys Gadeiriol arall yn Dominion Square yr hon sydd gopi o Eglwys fawr St. Pedr yn Rhufain ond ei bod ar raddfa llai eang. Mae oddeutu chwarter y boblogaeth o bedwar càn mil yn Brotestaniaid. Mae ganddynt hwythau hefyd lawer o Eglwysi heirdd. Pan oeddwn i yno yr oedd yr Undodiaid ar ymadael a'u hen eglwys yn y rhan fasnachol o'r dref, a myned i'w heglwys newydd ardderchog mewn cymydogaeth fwy poblog. Mae y deml newydd yn adeilad tlws iawn, a dywedid y costiai, a chyfrif rhoddion personol gan yr aelodau, ryw ddeg mil ar hugain o bunau. Bu y gweinidog, y diweddar hybarch Dr. Barnes yn garedig iawn i mi. Ac felly bu Mr. Cameron, ysgrifenydd y gynulleidfa. Un diwrnod aeth Mr. Cameron â'm cyd-deithiwr a minau i weled man rhamantus iawn ar yr afon St. Lawrence, a elwir *Lachine Rapids*. Chwyrnella yr afon fawr gyda chyflymdra a nerth arswydus rhwng y creigiau yn debyg i Deifi islaw Llandyssul, ond ar raddfa braidd anfesurol fwy. Mae yn arferiad gan deithwyr i fyned drwy y man hwnw mewn corwgl bychan o dan ofal Indiad coch o'r enw Shôn Mawr. Gan fod llif yn yr afon meddyliais mai doethach oedd cadw yn mhell oddiwrth Shôn y tro hwn, a myned drwy y rhyferthwy mewn agerlong, yr hyn a wnaethum. Fel yr ymsaethai yr agerlong rhwng y creigiau gan roddi ysgytiad tra afrosgo ar brydiau, yr oedd y rhan fwyaf o'r teithwyr yn teimlo dipyn yn

ofnus. Ar gyfer y llongau sydd yn tradio rhwng Montreal a llyn fawr Ontario mae *canal* wedi ei wneud er mwyn iddynt allu osgoi y man peryglus hwn.

Gerllaw Lachine mae sefydliad yn perthyn i'r Indiaid, cyndeidiau y rhai a drigianent yno cyn i'w gwlad gael ei goresgyn gan y dyn gwyn. Dan ddylanwad gwareiddiad mae eu nerth corphorol wedi dirywio yn fawr, ac maent wedi colli llawer o'u neillduolion cenedlaethol. Perthynant i lwyth mawr a phwysig yr Huroniaid y rhai oeddynt adran gref iawn o'r Indiaid dri chan mlynedd yn ol.

Gwneir poblogaeth Montreal i fyny i ran helaeth o sefydlwyr Ysgotaidd, pobl nad ydynt yn ofni tipyn o waith caled. Cyfiawn yw dweyd wrth y rhai sydd yn bwriadu ymsefydlu yn Canada fod rheol St. Paul yn cael ei chario allan yn dra llythyrenol yno, sef, "Os byddai neb na fynai weithio na chai fwyta chwaith." Rhaid i'r ymfudwr fod yn barod i droi ei law at unrhyw orchwyl. Ar y dechreu bydd ei orchwylion yn dra amrywiol, ond yn y diwedd os yw o yspryd gweithgar, cyferfydd â'r gwaith sydd fwyaf cydnaws iddo. Fynychaf try y bobl sydd wedi bod yn fethiant yn yr hen wlad yn fethiant yno hefyd. Nid yw croesi'r môr yn gwneud fawr wahaniaeth iddynt. Felly y mae hefyd, onide, gyda'r bywyd ysprydol. Tybiaf mai y rhai gant fwyaf o lawenydd tuhwnt i'r llen, yw y cyfryw ag a gawsant flaenbrawf o'r nefoedd yma.

E. Ceredig Jones.

(*Pw barhau*).

"MEWN UNDEB MAE NERTH."

(Gan Daniel Jones, C.M., Mydroilyn).

"Mewn undeb mae nerth." Mae hwn yn hen ddywediad neu ddiareb sydd yn cario gwirionedd mor gyffredin a phwysig fel y gwelir ac y dangosir enghreifftiau o hono, ar bob llaw, ac yn mhob cylch o fywyd yn feunyddiol. Wrth undeb y golygir nifer wedi agoshau at eu gilydd i gydweithio gyda'r un bwriad ac i'r un pwrpas, i fod fel cyfangorff yn un. Gyda'r corph hwn wneir i fynu o lawer o unigolion, y mae mwy o allu i weithredu nag sydd gan yr unigolyn ei hun, ac felly yn syml y deallir ac yr esponir y gwirionedd gyflwynir i ni yn yr hen ddywediad yma. Mae hen ddywediadau fel hyn wedi eu cario i lawr i'r presenol o'r gorphenol pell. Profodd ein cyndeidiau gynt mewn oes foreu o'r byd fod gallu—bron na ddywedir yn anorchfygol—gyda'r nifer blethwyd yn eu gilydd gan rwymau undeb. Er fod y dywediad wedi ei drosglwyddo i lawr o oes foreuol, nis gellir dweyd ei fod wedi myned yn llwydaidd a brau gan henaint. Deil y gwirionedd gyflea, mor gryf heddyw ag erioed; ac yn wir heddyw mae y byd yn gyfangwbl wedi llwyr ddeall ei bwysig-

rwydd a'i werth, oherwydd ni welwyd erioed cyn hyn gymaint o arwyddion i weithio allan mewn ystyr ymarferol yr hyn gynwysir ynddo. Dysgwyd yr un wers gynt gan y prophwydi, ac yn ddiweddarach gan Iesu a'r Apostolion, eithr yn araf iawn y teithia yr hen fyd yn ei flaen, ond os araf yw, teithia yn mlaen yn sicr ar yr un pryd. Mae un oes yn adeiladu i fynu ar olion a muriau oesau blaenorol, cerdda un gam yn nes yn mlaen nag a wnaed cyn hyny—yn nes yn mlaen o hyd mewn gwybodaeth, celf, gwyddor, athroniaeth a bywyd moesol a chrefyddol. Mae yr hen fyd yma—yn faterol—fel pe yn cael ei gwblhau a'i berffeithio o gyfnod i gyfnod, a gwelir Llaw yr Arglwydd yn ei yru yn mlaen yn wastadol i gyfeiriad perffeithrwydd; y mae dyddiau'r cread eto heb orphen. Felly y mae am y ddynoliaeth yn gyffredin: treigl yn mlaen trwy gyfnewidiadau a chwyldroadau, gyda llanw a thrai yn awr ac yn y man, yn araf i gyfeiriad datblygiad a pherffeithrwydd. Mae holl ddarganfyddwyr, gwyddonwyr, a mawrion eraill y byd yn ddyledus o'r mwyaf i ddeiliaid yr oesau gynt, pa rai, yn nhywyllwch anwybodaeth a diffyg profiad, aberthasant lawer o'u bywydau er gweled glasiad y wawr mewn dysg a phrofiad.

ANALLUOGRWYDD DYN FEL UNIGOLYN.—Genir dyn yn fôd gwanaidd a diymadferth, a dibyna yn hollol am nawdd ar ei rieni am dymhor hir. Mae ei gorph, ei feddwl, ei ewyllys a phob sylw arall, yn wanaidd ac anmherffaith ar y cyntaf, ond dechreua sugno adnoddau nerth, hoender, a sylw oddiwrth allanolion yn lled foreu. Dywed rhai athronwyr fod y cyfan meddyliol yn y plentyn yn y dechreu—*in embryo*, fel y dywedir, tra y maentumia eraill mai oddiwrth yr amgylchoedd yn hollol y derbynia ei addysg a holl swm ei wybodaeth. Er y dichon fod yn y plentyn, er y dechreu, ryw nodweddion teuluol, ryw ddyheadau arbenig wedi eu trosglwyddo i lawr o genhedlaethau blaenorol, credwn yn fwy o hyd fod swm addysg, gwybodaeth, a safle foesol a chrefyddol pob un i'w priodoli bron yn gyfangwbl i'r amgylchynedd a'r awyrgylch y dygir ef i fynu ynddynt. Mae dylanwadau y cartref, y cyfeillion a'r athrawon i'w gweled yn eglur yn nghymeriad pob person bron. Mae planigion pechod a drygioni wedi eu hau yn foreu, efallai, yn nghalon plentyn, ac os na ddiwreiddir ef yn gynar, tyf mewn gwyrddlesni nes dod yn bren cryf gan ddwyn ffrwythau addfed pechod ac afradlonedd. Hadau rhinwedd a daioni heuir yn nghalonau eraill, gwrteithir hwy yn eu hamser nes y tyfant yn flagur prydferth, gan ddwyn blodion uniondeb, gweithgarwch a moesoldeb yn eu pryd. Felly mae o'r pwys dyfnaf i rieni ac athrawon i feithrin ac i ddatblygu yr elfenau hyny flagurant allan yn rhinwedd a daioni yn mhob plentyn, gan dori ymaith a diwreiddio holl chwyn pechod a budredd moesol gyd-dyfant â hwy. Creadur yn dibynu yn llwyr bron ar ei amgylchynedd yw dyn, gwan a brau ar y goreu, ac yn agored yn feunyddiol i lithro o lwybrau dyledswydd ac uniondeb i aml gilfachau difaterwch, diogi a phechod. Mae yr oes bresenol yn ddyledus am ei safle a'i hanrhydedd i'r oesau gynt. "Eraill a lafuriasant, a ninau a aethom i mewn i'w llafur hwynt." Gellir dweyd, heb arfer unrhyw ormodiaith, fod seiliau ein bywydau wedi eu gosod i lawr gan y tadau, i'r rhai y mae arnom ni rwymedigaethau a dyledion mawr iawn a gwerthfawr. Mewn masnach, celf a gwybodaeth yr ydym wedi etifeddu cryn lawer oddiwrth eraill lafuriasant o'n blaenau; ac os ydym wedi cyflawni unrhyw orchestwaith yn ein bywyd, nid ydym ond megis wedi rhoddi un gareg arall i fynu yn yr hen adeilad mawr godir gan ddynolryw. Aml, aml y canmolir ac y gogoneddir rhyw waith neillduol gyflawnir gan rywun, ac, wrth gwrs, mae hyny yn eithaf teg a rhesymol i fesur, ond ar yr un pryd dylem gadw mewn cof fod eraill, a chenedlaethau eraill, wedi ei gynorthwyo i gryn fesur i gyflawni a gorphen ei orchestwaith. Gyrir y byd, felly, yn mlaen

o ddydd, ac o oes i oes ; pan syrth un genhedlaeth, arall a ddaw gan wneuthur ei gwaith arbenig hi er dyrchafiad a pherffeithiad y byd yn gyffredinol. Mae dyn, ar ei ben ei hun, felly, yn wanaidd, ac heb fawr o allu i gyflawni unrhyw beth yn annibynol ar eralll. Er y dichon ei fod yn wr medrus a deheuig mewn celfyddydwaith, dibyna yn llwyr ar eraill i barotoi a darparu gwahanol bethau iddo i gyflawni ei ddyrus orchwylion. Tyner allan ddyn, a rhodder ef yn llwyr ar ei ben ei hun, yn hollol annibynol oddiwrth eraill, er ei roddi yn y mannau cyfoethocaf o'r ddaear, ni fydd ond tlodyn gwael a diymadferth iawn yno ar y goreu tra ar ei ben ei hun. Mae dyn yn naturiol yn un, neu yn aelod o gyfundeb, ac fel y cyfryw y mae yn bosibl iddo gyflawni unrhyw weithred sylweddol er hyrwyddo a gyru y byd yn ei flaen. Gyda phob dyledus barch i'w gyndeidiau a'i gydfforddolion, gall y dyn felly, oddiar seiliau sylfaenwyd yn barod iddo, a gyda chymhorth cyfeillion a chydoeswyr wneuthur ei ran, er mai bychan fydd i yru y byd yn mlaen i gyfeiriad daioni, purdeb a pherffeithrwydd.

Undeb mewn Natur ac yn y Cread.—Pan yr edrychir am foment ar waith yr Anfeidrol yn y cread, gwelir yn eglur mor lân a gogoneddus y mae wedi rhwymo yr holl fater a'r bydoedd yma wrth eu gilydd mewn gwir undeb. Y gwahanol elfenau a dynant at eu gilydd gan ryw gudd-iedig allu i ffurfio darn o fater, a'r darnau yma eilwaith a gyd-gylymir wrth eu gilydd i ffurfio byd crwn, cyfan. Dall ydym mewn gwirionedd i'r rhan fwyaf o waith gogoneddus y Creawdwr, yr Hwn a seiliodd y myrdd bydoedd yma, ac a'u ceidw i droi yn eu gwahanol gylchoedd fel y peirianwaith mwyaf ardderchog. Pe cyfodem i fynu o'r llwch dan ein traed y gareg ddistadlaf, diamheu fod yna fwy o'i hanes a'i dirgeledigaethau yn nghudd eto nag sydd wedi gweled goleuni dydd gan wyddonwyr. Ceisiwn, o ddydd i ddydd, chwilio allan a deall meddyliau cyfrin yr Anfeidrol mewn natur, ac er fod llafur llawer gwron wedi ei goroni â mawr lwyddiant, erys eto ddirgeledigaethau a chyfrinion ydynt yn guddiedig tan leni trwchus, er fod gwyddor yn barhaus yn dadorchuddio haenau o honynt. Mor ardderchog yw y cyfundrefnau heulog a serenog ! Gwel y meidrol hwy, a dealla lwybrau y gwahanol blanedau a ser, a sylla mewn mudanrwydd dwys a chyfriniol wrth weled gwaith y greadigaeth lân. Teifl drem i fynu eilwaith, a gwel ei fychander ei hun mewn gwirionedd. Llaw Duw a'u ceidw hwynt oll i droi ac i gyflawni eu dibenion yn berffaith, mewn undeb trwyadl â'u gilydd yn barhaus. Maent oll yn wasanaethgar i'w gilydd ; yr haul a'r lleuadau wnant eu rhan yn gyson i'r planedau, a'r rhai hyn, fel ad-daliad wasanaethant eraill mewn amryw ffyrdd, megys dysgyrchiad, adlewyrchiad goleuni, &c. O'r greadigaeth faterol gellir, heb deimlo unrhyw anhawster, cael enghreifftiau lawer i brofi fod y bydoedd aneirif wedi eu cylymu wrth eu gilydd yn undebau a chyfundrefnau i wneuthur eu rhan yn rheolaidd a chywir. O'n hamgylch ar bob llaw yn y byd llysieuol mewn anian gwelir yr un egwyddor yn cael ei dangos. Mae holl lysiau a choedwigoedd y ddaear mewn undeb llwyr âg elfenau y ddaear a'r awyr, a thrwy nerth yr undeb hwn yn unig y medrant flaguro, tyfu a magu hâd. Mae pob math o fywyd ymddengys ar y wyneb yn rhwym o fod mewn perffaith undeb â gwahanol sylweddau ac elfenau cyn y medr gadw ei fywyd ac i fod yn wasanaethgar i eraill. Os yr edrychir ar y byd anifeilaidd, ehediaid yr awyr a physg y môr, gwelir yn mhellach ar bob llaw enghreifftiau fyrdd yn dangos yr un egwyddor gyffredinol. Er nas bendithiodd y Creawdwr hwynt â rheswm i benderfynu a llywodraethu eu llwybrau, maent oll wedi etifeddu greddfau ydynt yn eu gallogi i sefyll wrth eu gilydd, ac i amddiffyn eu gilydd mewn gwir undeb yn erbyn ymosodiadau rhywogaethau eraill. Yn naturiol, gwelir hwy ar bob llaw yn heidiau, yn un a chytu

pan yn croesi terfyngylchoedd eu preswylfeydd cynefin ; gwelir hwy yn cyd-ymladd yn ddewr dros eu hiawnderau, a pharod ydynt yn aml i estyn cynorthwy i'r gwan a'r methedig. Gan fod y Llaw Ragluniaethol wedi cynysgaeddu y gwahanol greaduriaid direswm hyn â greddfau i fod mewn undeb, ac yn unol a'u gilydd, teimlwn yn sicr fod yr un Bôd mawr wedi darparu ac yn gofyn i ddyn, pa un y bendithiodd â rheswm, i ddilyn eu hesiampl yn hyn yn ogystal ag eraill. Fel y dywedwyd eisoes, dangosa yr holl greadigaeth, fel cyfanwaith, yn ogystal a'i gwahanol rywogaethau o bob lliw a gradd, arwyddion diamheuol mai o undeb y tardd gwir nerth; a dysg ni yn wastad mai trwy undeb gwirioneddol â'n gilydd, a thrwy ymroddiad a ffyddlondeb i waith yn ei holl agweddau, y disgwylir cael y canlyniadau goreu. Gan i ni dderbyn y wers bwysig hon oddi uchod, na fydded i ni ei chamddefnyddio i amcanion gau a drwg, eithr yn hytrach gwnawn y goreu ohoni i wneuthur ein rhan yn urddasol, trwy ddiwyd-rwydd a sancteiddrwydd, i lesoli a dyrchafu ystad cymdeithas o'n cylch, ac felly i wneuthur ein cyfran fechan ni i liwio gwyneb y ddaear yma yn fwy tebyg i wyneb y nefoedd.

(*I'w barhau*).

MARWOLAETH LLENOR IEUANC.

Drwg iawn genym glywed am farwolaeth y llenor a'r bardd ieuanc, Mr. E. B. Morris (*Myfyr Teifi*). Bu farw ar y 19eg o Ionawr, yn nhy ei rieni ger Llanbedr, yn ei 30ain oed. Ysgrifenodd lawer iawn i'r gwahanol gyhoeddiadau Cymreig, yn benaf i'r 'Cymru,' gan y mwyaf ar destynau hanesiol a bywgraphol. Dyma rai o benawdau ei erthyglau yn y misolyn poblogaidd uchod : Ioan Mynyw ; Dr. Richard Price ; Y Crythwr Dall ; Daniel Gloff ; Deio Dywyll ; Gwilym Gwenog ; Dewi Hefin, a llawer o destynau eraill a feddant ddyddordeb i Undodiaid. I'r olaf o'r rhestr uchod —Dewi Hefin—yr oedd Mr. Morris yn gyfaill twymgalon. Nid rhyfedd hyny, oherwydd yr oeddent ill dau mor hoff o rodio yn nghwmni'r awen. Ysgrifenodd hefyd nifer o erthyglau byrion ond cynwysfawr i un o bapyrau Morganwg ar "Enwogion Aber Dâr" ; cyhoeddodd hwy wedi hyny yn gyfrol fechan chwaethus, cyflwynedig i'r Parch. R. J. Jones, M.A., "fel teyrnged o barch ac edmygedd diledryw," a deallwn fod ganddo gyfrol arall yn barod i'r wasg.

Yr oedd yn ddyn ieuanc o yspryd llednais, o gymeriad ardderchog, ac o gariad angherddol at bob peth a ddaliai berthynas â Chymru. Ymhoffai ddwyn i'r goleu enwogion cudd Cymru—y dynion a'r benywod fuont yn llafurus mewn cylchoedd cyfyng a dinod i godi Cymru, enwau llawer o'r rhai, oni bai am ymdrechion ffyddlon ein cyfaill ieuanc a'i gyffelyb, a adewid i syrthio i ebargofiant, er colled anrhaethol i genhedlaethau dyfodol ein gwlad. A diau, pe cai fywyd, y gwnai wasanaeth gwerthfawr eto yn y cysylltiad hwn, a chysylltiadau llenyddol eraill. Ond wele haul ei fywyd wedi machlud yn gynar, a gobeithion lu wedi eu diffodd. Bydd y goffadwriaeth am dano yn felus i bawb gawsant y pleser o fwynhau ei gymdeithas.

PRIODASAU.

BOREU NADOLIG, yn nghapel y Graig, o flaen y Parch. D. G. Rees a'r Cofrestrydd, Mr. N. L. Davies, unwyd mewn hardd briodas Mr. Johnnie Bendle, Pontardawe, a Miss Dinah Morgan, Alltwen.

Mae'r byd o'ch blaen,
A'r gwaith yn fawr,
A chyn daw graen
Ar waith pob awr,
Bydd rhaid ymroi
Bob awr o'r dydd ;
A'ch bywyd oll
Yn hapus fydd.

IONAWR 8, yn Nghapelygroes, gan y Parch. D. Evans, ac yn mhresenoldeb Mr. Titus Evans, y Cofrestrydd, unwyd Mr. Griffith Jenkins, Pentrefelin, Talsarn, mewn priodas â Miss Mary Grace Jenkins, Blaenwaunganol, Llanwnen.

CHWEFROR 9, yn Hen Dy Cwrdd, Aberdar, Mr. Taliesin Griffiths, Pantglas, â Miss Elizabeth Evans, 10, Broniestin Terrace, y Parch. J. Glynne Davies yn gwasanaethu, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. R. J. J. Jones, M.A. Tad a mam y gwr ifanc —Mr. a Mrs. Griffiths, Stag Hotel—oedd y ddau briodwyd gyntaf yn yr Hen Dy Cwrdd.

MARWOFION.

RHAGFYR 18, 1912, tra y tawai cân pob aderyn adeiniog, a thra yr hunai pob mynydd a bryn yn nghesail y cread, yr hunodd Rachel Anne, anwyl wraig Mr. William Alfa Richards, 3, Tawe Terrace, Pontardawe, yn yr oedran cynar o 37 mlwydd oed. Gedy ein chwaer ymadawedig gydmar hoff yn unig yn yr ymdrech ; gyda phump o blant bychain o dan ei ofal. Os oes colled yn bod o gwbl yn y byd,—plant bychain yn colli eu mam yw hwnw. Beth yw aelwyd i blentyn heb fam ? Megis y cae heb flodau. Gan sydynrwydd marwolaeth Mrs. Richards aeth pob bron yn fud, ond ni fu y teimlad heb lefaru llawer. Hyderwn y caiff Alfa eto nerth i ymddal, ac ymroi gyda'r merched a'u brawd Gerallt bach, i'w dwyn i fyny, a chadw cariad ac anogaethau y fam i fod yn gyfnerth iddynt. Y Sadwrn dilynol claddwyd wrth Eglwys St. Ioan, Clydach. Codwyd yr angladd gan y Parchn. Seiriol Williams, Tabernacl, Pontardawe ; a Llewelyn Boyer, Danygraig, Alltwen. Daeth holl weinidogion y cylch yn nghyd, a beirdd o bell ac agos, i gydymdeimlo ag Alfa, ac i dalu y gymwynas syml olaf i'w anwyl briod.

RHAGFYR 18, yn 76 oed, bu farw Anne Evans, Sychpant, plwyf Llanwenog. Dioddefodd gystudd hir a phoenus iawn am yn mhell uwchlaw ugain mlynedd ; ac yr oedd wedi ei chaethiwo yn llwyr i'w gwely er's llawer o flynyddau. Cafodd bob chwareu teg a chysur fedrai'r teulu estyn iddi. Bu ei merch, Martha, yn neillduol o dyner tuag ati a gofalus am dani. Y mae hyn yn glod iddi. A diau fod y meddwl ei bod wedi cael pob nodded a thriniaeth a thynerwch

oedd yn eu gallu hwy i'w rhoi yn gysur i'r teulu heddyw pan y maent wedi ei cholli. Gadawodd briod, pedwar o blant, a nifer luosog o wyrion, mewn galar dwys ar ei hol. Hebryngwyd ei gweddillion i fynwent Capelygroes y Llun canlynol gan dorf luosog. Pregethwyd yn y ty gan y Parch. E. O. Jenkins ; a chymerwyd rhan yn y gwasanaethau gan y Parchn. E. Glyn Edwards, D. Evans, ac L. Williams.

RHAGFYR 22, wedi cystudd maith, yn 31 oed, John Davies, Tan'rallt, ger y Cribyn. Claddwyd yn mynwent Capelybryn, a chyflawnwyd y gwasanaeth ar yr achlysur gan y Parch. B. Carolan Davies, Tynygwndwn, gyda chynorthwy y Parchn. Lewis Williams a John Davies. Gadawodd weddw ieuanc a thri o blant bychain i alaru ar ei ol. Tad yr amddifaid a Barnwr y gweddwon fyddo'n dwr ac yn amddiffynfa iddynt.

RHAGFYR 27, yn naw mis oed, David Price, anwyl blentyn John a Hannah Davies, Bryn'rhogfaen, Llanwenog. Claddwyd yn mynwent Capelybryn, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog. "Yr Arglwydd a roddodd ; a'r Arglwydd a ddygodd ymaith."

RHAGFYR 27, yn 49 oed, John Thomas, Ffosygiach, Talgareg, gan adael priod, merch, tad, chwaer, brodyr a llu o gyfeillion i wel'd ei eisiau. Claddwyd y Mawrth canlynol yn Bwlchyfadfa pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins a T. Hughes (A.), Pencae. Wrth golli John Thomas, collodd cynulleidfa'r Bwlch aelod gweithgar a ffyddlawn ; collodd yr ardal weithiwr diwyd a chymydog cymwynasgar. Bu'n weithiwr caled ar hyd ei oes, a gellir dweyd fod diwydrwydd a gonestrwydd yn nodweddion amlwg yn ei fywyd. Cymerodd ran flaenllaw yn mywyd yr eglwys, yn enwedig gyda'r canu, a chwithig yw meddwl na chawn weled ei wyneb na chlywed ei lais yma mwy ond mewn dychymyg. Yr oedd yn ddyn o gyfansoddiad cadarn hyd at y ddwy flynedd olaf o'i oes, ond wedi dechreu gwaelu a cholli'r dydd, gwaelodd yn gyflym a dioddefodd boen mawr. "Er yn farw mae eto'n fyw ; mwy byw ni bu erioed."

IONAWR 2, tra blwyddyn newydd yn cwhwfan ei baner, ac yn datganu ei hail gân i dorf o deithwyr pererinol, y bu farw Mary, anwyl briod Mr. William Morgan, ger y chwarel, Trebanos, yn 57 mlwydd oed. Wele gynulleidfa Gellionen a'r Graig yn colli aelod ffyddlon arall, wedi bod am dymor maith gyda chrefydd, a hono yn un anrhydeddus. Yr oedd Mrs. Morgan yn fenyw grefyddol drwyddi draw. Mae y golled ar yr aelwyd yma eto yn fawr iawn, colli mam a'i gweinyddiad bob amser yn wir fywyd i'r holl deulu. Mae yn llawen gweled y plant wedi tyfu i faintioli cyffredin, ac yn urddas i grefydd Iesu Grist. Y dydd Llun dilynol, hebryngwyd ei theml o bridd i fynwent Gellionen. Pregethwyd gan y Parch. D. G. Rees ; darllenwyd a gweddiwyd yn y capel gan y Parch. D. Gomer Richards, Gosen, Trebanos. Caffed y weddw a'r plant a'r holl berthynasau o bell ac agos ddigon o ras a chariad a ffyddlondeb i barhau i rodio yn yr un llwybr gwyn ac y rhodiodd yr hwn sydd wedi blaenu i ogoniant y "*tu hwnt i'r llen.*"

O ! famau anwyl, tyner,
Ffarwel i chwi, eich dwy,
Bydd tànau calon plentyn bach
Yn canu'ch cariad mwy ;

Mae'r gauaf a'i chyfeiliant
Yn harddu'ch llwybrau gwyn,
A delw'ch bywyd yn y gwlith
Fel delw'r ser mewn llyn.

IONAWR 8, yn dra anisgwyliadwy, Mrs. Eleanor Lloyd, anwyl briod Mr. Thomas Lloyd, Felindreuchaf, Llanfihangel Ystrad, yn 60 mlwydd oed. Aeth yr ymadawedig i orphwys y noson cyn ei marwolaeth yn iach fel arferol, a bu farw ychydig cyn toriad y dydd yn hollol sydyn. Yr oedd yn fenyw ragorol mewn llawer ystyr. Yr oedd yn ofalus o'i chartref, a gwnaeth ei goreu dros lwyddiant a chysur ei

theulu. Gellir dweyd am dani, heb arfer gormodiaith, "Hyn a allodd hon hi a'i gwnaeth." Nid oedd gweniaith na thrwst yn perthyn iddi—un o dymer dawel a gwylaidd ydoedd, ond yr oedd ei nhatur yn rhy gyfoethog o gariad brawdol ac ewyllys dda iddi allu ymatal rhag gwneud daioni, ac yn ei ffordd ddistaw ei hun gwnaeth lawer o weithredoedd da. Clywsom am un sydd yn dybynu llawer ar garedigrwydd eraill yn dweyd ar ol ei mharwolaeth fod y gwragedd goreu yn cael eu cymeryd. Yr hyn oedd yn cyfrif am ddywediad felly oedd fod yr un a'i dywedodd wedi derbyn llawer o garedigrwydd oddiar ei llaw. Merch ydoedd i'r diweddar David Jenkins, Glynmeherin, Llanwenog, gwr enwog yn ei amser. Yr oedd ei hangladd yn un anarferol o luosog, yr hyn oedd yn brawf o'r parch mawr oedd iddi hi a'i theulu. Claddwyd y Llun canlynol yn mynwent eglwys Rhydygwin. Gwasanaethwyd gan y Parch. L. Williams, a chynorthwywyd gan y Parchn. J. Davies, Alltplacca; B. Carolan Davies, Tynygwndwn; E. Evans, Soar, Llanbedr. Gadawodd briod, pump mab, pump merch, tri mab-yn-nghyfraith, dau frawd, tair chwaer, ac amryw o berthynasau eraill mewn galar mawr ar ei hol. Duw'r nef a'u nhertho i ddal dan y brofedigaeth lem.

Ionawr 11, John James, Gelligron, Pontsian (gynt o Rhydowen), Llandyssul, yn 79 oed. Yr oedd yn un o naw o blant ac efe oedd yr olaf o honynt. Cafodd ei flino am flynyddoedd gan y crydgymalau ac ar adegau dioddefai boenau dirfawr; ag eithrio hyny gellir dweyd iddo fwynhau iechyd neillduol o dda ar hyd ei oes. Hyd o fewn i fis i'w farwolaeth nis gwyddai beth oedd gorwedd yn y gwely gan afiechyd am gymaint a diwrnod; ond bu ei fis olaf yn fis o gystudd caled iawn, a chafodd y rhai fu'n gweini arno law drom. Gan na fu'n briod nid oedd ganddo deulu i alaru ar ei ol, ac eto mae yna nifer luosog o berthynasau a chymydogion yn teimlo'n chwithig oherwydd ei ei golli. Mae ei le yn wag iawn yn eglwys Llwynrhydowen canys yr oedd yn aelod ffyddlawn a meddylgar; yn aelod a gymerai ddyddordeb mawr yn mhobpeth perthynol i'r eglwys. Yr oedd eglwys a mynwent y Llwyn yn cael lle cynes yn ei galon. Cariai ef ei ran o bob baich a deallwn ei fod wedi gadael £100 o gymunrodd i'r Eglwys. Hyderwn y bydd colli un ffyddlon yn help i wneud eraill yn fwy ffyddlon. Claddwyd y Mercher canlynol yn Llwynrhydowen. Gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins a John Davies, Alltplacca.

Ionawr 17, 69 oed, bu farw Thomas James, Caerfoel, ger Cribyn. Cymharol fyr fu ei gystudd olaf, ac hytrach yn anisgwyliadwy i'w gydnabyddiaeth fu ei symudiad o fywyd. Ond yr oedd ei iechyd wedi ei amharu er's blwyddyn neu ragor yn ol. Gadawodd i alaru ar ei ol briod, deg o blant, amryw wyrion, dau frawd, a lluaws o berthynasau agos eraill. Diau y gwelir ei le yn wag iawn ar yr aelwyd, ac y teimlir hiraeth ar ei ol am hir amser. Diolch am mai felly y mae. Ond y mae amser yn peri i hiraeth roi lle i deimladau mwy cysegredig. Dydd Mercher canlynol hebryngwyd ei weddillion i fynwent Eglwys Llanwnen gan dyrfa luosog iawn. Pregethwyd yn y ty gan y Parch. D. Evans, Cribyn; a chymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parch. L. Williams. Gweinyddwyd yn yr eglwys gan y Ficer.

Ionawr 19, yn 88 mlwydd oed, Sarah Jones, Tynygruguchaf, Llanwenog,—gweddw y diweddar Rees Jones, Drefach. Claddwyd yn medd ei phriod yu mynwent Capelybryn, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog, gyda chynorthwy y Parch. E. Glyn Edwards (B.). Gadawodd bump o blant a llawer o wyrion i alaru'n ddwys ar ol un a fuasai iddynt yn fam dyner a gofalus. Gweithiodd yn galed drostynt yn ddirwgnach, o dan amgylchiadau anffafriol, a chafodd y fraint o'u gweled wedi dyfod yn drech na'r amgylchiadau. Yr oedd yr angladd yn lluosog

iawn, ac felly yn nod amlwg o'r parch a deimlid yn gyffredin tuag ati yn y gymydogaeth. "Mi a ymdrechais ymdrech deg."

MANION AC HANESION.

W. S. ETO. — Y mae yn bleser genym weled fod Mr. W. S. Jones, M.A., M.Sc., Rhydychen, a mab i'r Parch. R. C. Jones, Llanbedr, wedi ei benodi gan Lywydd Bwrdd Amaethyddiaeth i fod yn Arolygydd ac Ysgrifenydd o dan y Proffeswr Bryner Jones, Dirprwywr y Cynghor Amaethyddol Cymreig. Yr ydym wedi cofnodi o dro i dro am yrfa lwyddianus Mr. Jones. Dymunwn eto ei longyfarch yn galonog ar ei benodiad pwysig ac ar y ffaith ei fod yn dychwelyd i Aberystwyth i roddi i Gymru ei wasanaeth gwerthfawr.

CRIBYN.—Y mae'r gynulleidfa yn y lle hwn yn ddiweddar wedi anrhegu Miss Jones, Tanlan, âg awrlais prydferth, yn nghyd a swm o aur, am ei gwasanaeth ffyddlon fel organyddes am y pymtheg mlynedd diweddaf. Y mae Miss Jones yn chwaer i'r Parch. Islan Jones, M.A.

Y GRAIG A GELLIONEN. —Yn Ysgoldy y Graig, nos Sadwrn, Tachwedd 2, 1912, dan lywyddiaeth y Parch. D. G. Rees, cynhaliwyd y cyntaf o gyfres o gyfarfodydd fwriedir gael drwy y gauaf presenol. Fe ddaliwyd ar fantais yn y cyfarfod hwn i anrhegu y ffyddloniaid sydd yn llafurio. ——Boreu yn Gellionen, a'r hwyr yn y Graig, Sul, Tachwedd 10, 1912, cynhaliwyd y cyrddau diolchgarwch am y cynhauaf. Traddododd y Parch. D. G. Rees ddwy bregeth bwrpasol iawn. Addurnwyd y ddau gapel â blodau a ffrwythau o bob math. —— Yn y Graig, nos Nadolig, y caed ein cyngherdd blynyddol, er ys mwy na haner can mlynedd, heb golli yr un. Arweiniwyd yn fedrus gan y Parch. D. G. Rees ; y cyfeilyddion oeddynt Mri. J. E. Hopkin a Mr. H. H. Morgan. Cafwyd cyfarfod wrth fodd pawb.——Yn yr ysgoldy, yn y prydnawn, rhanwyd llyfrau am fynychiad a ffyddlondeb i ddeiliaid ieuengaf yr Ysgol Sul.——Eto, yn yr ysgoldy, nos Sadwrn, Ionawr 11, 1913, cafwyd cyfarfod llenyddol a chystadleuol arall, dan lywyddiaeth hyfforddus, ddoniol a difyr Mr. David Roderick, Clydach. Beirniaid llenyddol—Mr. Charles Williams, Gelligron, a Mr. George Davies, Clydach. Cyfeilwyr — Mr. J. E. Hopkin a Mr. H. H. Morgan. Ysgrifenydd y cyfarfodydd, i'r hwn y dylid diolch am ei lafur cyson a pharhaus, yw Mr. J. J. Williams.

PANTDEFAID. — Rhagfyr 18, cynhaliwyd yr Eisteddfod flynyddol o dan lywyddiaeth Mr. J. R. Jones, Garthowen. Arweiniwyd gan y Parch. E. O. Jenkins, a beirniadwyd y canu gan Mr. Richard Thomas, Llanelli ; y farddoniaeth a'r adroddiadau gan Mr. Oswald Williams, U. C. W. Aberystwyth ; y gelfyddydwaith gan Arthog ; y gwniadwaith gan Mrs. Thomas, Penarwel, a Mrs. Jones, Garthowen, y rhai oll roddasant foddlonrwydd cyffredinol. Yr oedd yr elw tuag at drysorfa yr Ysgol Sul.

LLWYNRHYDOWEN. — Prydnawn Nadolig talodd Ysgol Sul Capelyfadfa ei hymweliad blynyddol â'r ysgol hon, a chafwyd prydnawn dymunol iawn gyda'r "Holi Pwnc." Dechreuwyd y gwasanaeth gan Mr. T. G. Thomas, Bwlch, a holwyd y ddwy ysgol oddiar Luc 18fed gan y Parch. E. O. Jenkins. Yn yr hwyr cynhal-

iwyd cyngherdd hwylus iawn yn yr hen gapel—cyfarfod a'i lond o amrywiaeth — o dan lywyddiaeth Mr. Josiah R. Jones, C.S., Garthowen. Cafwyd gwasanaeth ardderchog o adrodd a chanu gan Mr. Rees Williams, Llanwnen ; Miss Jennie Jones, Llandyfriog ; Mr. L. T. Thomas, Pantdefaid, a Mr. Evan Richards, Llandyssul. Rhoddodd y pedwar eu goreu i ni, a theimlwn yn ddiolchgar iawn iddynt am eu cynorthwy caredig.

GRAIG, LLANDYSSUL. — Dydd Calan anrhegwyd deiliaid Ysgol Sul a chyfeillion Capel y Graig â gwledd ragorol gan deuluoedd caredig Maesyrhedydd a Cross Inn Fawr, Llanfihangel-ar-Arth. Daeth nifer luosog yn nghyd i gyfranogi o'r danteithion melus, a gweinyddwyd wrth y byrddau gan foneddigesau caredig y gynulleidfa. Yn yr hwyr cynhaliwyd y cyngherdd blynyddol, ac yn absenoldeb anocheladwy y Major Cass, Dol'llan, cymerwyd y gadair gan y Parch. E. D. Henry, Ficer y plwyf, yr hwn wnaeth sylwadau pwrpasol wrth ddechreu. Cymerwyd rhan yn y cyngherdd gan y plant, y rhai berfformiodd y chwareugerdd—"*The old woman who lived in a shoe.*" Datganwyd unawdau a deuawdau yn swynol iawn gan Miss Jennie Jones, Llandyssul ; Mr. L. T. Thomas, Penarwel ; Mr. Evan Richards, Half Moon, a Mr. Harry Knight. Perfformiwyd drama Gymraeg ac un Saesneg gan aelodau yr Ysgol Sul yn ddoniol a hwylus. Cyfeiliwyd gan Mrs. Arthur Thomas a Mrs. Howell Davies. Yr oedd yr Assembly Rooms yn orlawn, y dorf yn mwynhau eu hunain yn ardderchog, a chafwyd elw da, yr hwn roddwyd gan yr Ysgol Sul tuag at Drysorfa Adeiladu Ysgoldy Newydd at wasanaeth yr eglwys a'r Ysgol Sul. Y mae ein diolchgarwch yn ddyledus i bawb fu yn llafurio mor rhagorol er gwneud y cyngherdd y fath lwyddiant yn mhob ystyr.——Hwyr y Sul cyntaf o'r flwyddyn newydd cynhaliwyd gwasanaeth arbenig er anrhegu aelodau ffyddlonaf yr Ysgol â gwobrau o lyfrau gwerthfawr, ac hefyd rhanwyd y *Penny Bank* rhwng yr aelodau, yr hwn gynwysai dros £58. Cyflwynwyd y gwobrau dros yr Ysgol Sul gan yr Arolygydd, Mr. James Oliver Lewis, a gwnaeth y Drysores a'r Ysgrifenyddes, Miss Thomas, Rhostafarn, a Miss Lloyd, Graigwyon, ranu y *Penny Bank*. Cafwyd anerchiadau byrion ar waith yr Ysgol Sul a dyledswydd pawb tuag ati gan y Gweinidog, Mr. Jenkin Jones, a Mr. John Evans, Cyfreithiwr.

CAERONEN. — Ar y dydd cyntaf ond un o'r flwyddyn newydd rhoddwyd gwledd o dê a bara brith i aelodau Ysgol Sul y Capel uchod ac eraill gan Mrs. Davies, Llwyndewi, a Miss Davies, Fishers Arms, Cellan. Yn yr hwyr cafwyd cwrdd adloniadol hynod adeiladol a swynol gan y plant ac eraill.

ABERDAR.—Deallwn fod y Parch. Glynne Davies, yn traddodi ei bregeth olaf yn H. D. Cwrdd, Aberdar, y Sul diweddaf yn Chwefror, ac yn dechreu ei weinidogaeth yn Banbridge yn yr Iwerddon y Sul cyntaf yn Mawrth.

CYFARFOD CHWARTEROL Y PASC. —Cynhelir yr uchod yn nghapel y Graig, Llandyssul, Mawrth 25 a 26. Ymddengys manylion pellach yn Rhifyn Mawrth.

Cymdeithas Addysgol Myfyrwyr Undodaidd Cymreig.

RHODDION YCHWANEGOL.

Rees Llewelyn, Esq., Bwllfa Aberdare, £1 1 ; Rev. R. J. Jones, M.A., £2 ; Rev. D. Evans, Cribyn, 5s. ; Dr. Evans, Lampeter, 5s.; Thomas Thomas, Esq., Solicitor, Llandyssul, 5s. ; W. S. Jones, Esq., Oxford, 5s. ; Dr. Jenkins, Rhondda, 10s. ; Mr. E. J. Thomas, 5s.

J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandyssul.

An intensely human and vividly realistic Novel depicting Life, Thought, and Character in the "Land of Religion and Song."

TO BE PUBLISHED SHORTLY, PRICE 6S.

"DANIEL EVELYN, HERETIC."

A Story which contains less fiction than fact.

By CADVAN RHYS (Author 'The Welsh Jew,' 'Poetlets & Bardlings,' &c.

Orders received by J. D. Lewis, "Yr Ymofynydd" Office, Llandyssul.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

. . Fruit Trees, Roses and Shrubs. . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss J. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

Feed Your Children

With WELSH PORRIDGE, made from

PURE WELSH OATMEAL.

The greatest MEDICAL EXPERTS say it is the most nourishing food for everybody.

Order to-day from the Manufacturers—

T. E. JONES & CO., LLANDYSSUL.

The London City and Midland Bank Limited,

WITH WHICH IS INCORPORATED THE

NORTH AND SOUTH WALES BANK.

—ESTABLISHED 1836.—

Directors:

SIR EDWARD H. HOLDEN, BART., (Chairman and Managing Director).
WILLIAM GRAHAM BRADSHAW, ESQ., LONDON (Deputy-Chairman).

The Right Hon. Lord Airedale, Leeds.
Sir Percy Elly Bates, Bart., Liverpool.
Robert Clover Beazley, Esq., Liverpool.
Sir William Benjamin Bowring, Bart., Liverpool
John Alexander Christie, Esq., London.
David Davies, Esq., M.P., Llandinam, Mont.
Frank Dudley Docker, Esq., C.B, Birmingham
Frederick Hynde Fox, Esq., Liverpool.
H. Simpson Gee, Esq., Leicester.
John Howard Gwyther, Esq., London.
Arthur T. Keen, Esq., Birmingham.
The Right Hon. Lord Pirrie, K.P., London.
The Right Hon. Lord Rotherham, Manchester.
Thomas Royden, Esq., Liverpool.
William Fitzthomas Wyley, Esq., Coventry.

Dr. BALANCE SHEET, 31st October, 1912. Cr.

LIABILITIES.

	£	s.	d.
Capital paid up	3,989,237	10	0
Reserve Fund	3,890,313	15	0
Current, Deposit and other Accounts (including Balance of Profit and Loss Account) ..	83,658,199	4	2
Acceptances on account of Customers ..	8,027,204	14	0

ASSETS.

	£	s.	d.	£	s.	d.
Cash and Bullion in hand and Cash at Bank of England ..	14,416,342	17	2			
Money at Call and at Short Notice	12,418,446	17	7			
				26,834,789	14	9
Investments				9,230,608	14	10
Bills of Exchange				7,517,632	16	8
				43,583,031	6	3
Advances on Current Accounts, Loans on Security, and other Accounts				45,416,389	1	5
Liabilities of Customers for Acceptances as per Contra				8,027,204	14	0
Bank Premises, at Head Office and Branches ..				2,038,330	1	6